# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Chwefror 2019

Amser: 09.20

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6363

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

## Sesiwn graffu blynyddol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru: sesiwn friffio lafar (09.20- 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Sesiwn graffu blynyddol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 73)

Clare Pillman, Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru

Syr David Henshaw, Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru

Ceri Davies, Cyfarwyddwr Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu, Cyfoeth Naturiol Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur - Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

**3.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Cadeirydd ynghylch cyflawni llwybr carbon isel hyd at 2030**

(Tudalennau 74 - 75)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - 7 Chwefror 2019

**3.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch amseriad yr ymateb a gafwyd i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019 -20**

(Tudalennau 76 - 77)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Cadeirydd - 7 February 2019

**3.3 Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch amseriad yr ymateb a gafwyd i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019 -20**

(Tudalennau 78 - 79)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Cadeirydd - 7 February 2019

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod heddiw ar gyfer eitemau 5, 6 a 7

(11.00)

## 5 Sesiwn graffu blynyddol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru: trafod y dystiolaeth lafar

(11.00–11.30)

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu): trafod yr adroddiad drafft

(11.30–11.45) (Tudalennau 80 – 82)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft

## 7 Blaenraglen waith: dull ar gyfer brandio a phrosesu bwyd

(11.45–12.00) (Tudalennau 83 – 85)

Dogfennau atodol:

Blaenraglen Waith

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Craffu Blynyddol 2018 y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Briffio ar faterion allweddol a chynnydd a wnaed ers mis Tachwedd 2017.**

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Llythyr Cylch Gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru
3. Gweithgarwch Masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru
4. Perfformiad Ynglŷn â'r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes
5. Hunan-blismona
6. Grantiau a Rhaglenni Ariannu
7. Sefyllfa Ariannol ac Arbedion
8. Gweithredu Deddfwriaeth
9. Brexit
10. Cadeirydd ac Aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

# 1. Cyflwyniad

1.0. Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym yn ymsefydlu egwyddorion rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol drwy'r ffordd yr ydym yn gweithio, a thrwy gymhwyso'r egwyddorion hyn rydym yn sicrhau bod ein cyfraniad at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) mor fawr â phosibl.

2.0. Mae amgylchedd naturiol Cymru yn rhagorol ac yn ysbrydoledig. Mae'n sylfaen i'n hiechyd, ein llesiant a'n ffyniant. Rydym yn ffodus i arwain tîm o bobl ymroddgar ac angerddol sy'n defnyddio eu harbenigedd a'u profiad i wneud gwahaniaeth i amgylchedd, pobl ac economi Cymru.

3.0. Mae ein staff yn parhau i weithio'n galed i gyflawni yn erbyn ein cylch gwaith: cynnal ein hachrediad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig, datblygu ein rôl o fewn pob un o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lansio ein strategaeth Natur Hanfodol newydd ac ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol ledled Cymru, gyda Storm Callum a nifer o danau mawr arwyddocaol eleni.

4.0. Roeddem yn falch o dderbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol, adfer bioamrywiaeth a rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ledled Cymru. Mae marchnad bren fywiog hefyd wedi cynyddu ein hincwm pren diweddar, yr ydym bellach yn gallu ei ddefnyddio ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i gefnogi creu coetir a chynefinoedd yn ogystal â gwaith rheoli ystâd drwy drwsio seilwaith cyfredol ac adeiladu seilwaith newydd.

5.0. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno i'r pwyllgor yn ystod ei waith craffu blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru.

# 2. Llythyr Cylch Gwaith

### Crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn llythyr cylch gwaith 2017/18 Cyfoeth Naturiol Cymru.

6.0. Gellir gweld crynodeb o gamau gweithredu a gymerwyd i gyflawni blaenoriaethau 2017/18 yn Atodiad 1 (tudalen 17).

### Crynodeb o'r camau yr ydych wedi eu rhoi ar waith i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn llythyr cylch gwaith 2018/19.

7.0. Gellir gweld crynodeb o gamau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni blaenoriaethau 2018/19 yn Atodiad 2 (tudalen 30).

# 3. Gweithgarwch Masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru

## Ad-drefnu Gwasanaethau Masnachol

8.0. Fel rhan o ailgynllunio ledled ein sefydliad, cytunwyd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gynyddu ei ffocws, ei allu a'i adnoddau arbenigol ym maes datblygu masnachol a busnes. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn recriwtio Pennaeth Masnachol newydd gyda phrofiad a gallu ym maes strategaeth fasnachol ehangach, datblygu busnes a gweithrediadau, a bydd y swyddogaeth hon yn cael ei lleoli o fewn Cyfarwyddiaeth Cyllid, Masnach a Gwasanaethau Corfforaethol fwy (i ddarparu cysylltiadau â llywodraethu ariannol a dod â'r gadwyn gyflenwi gyfan at ei gilydd).

9.0. Bydd y Pennaeth Masnachol newydd yn gyfrifol am y swyddogaethau canlynol:

- Strategaeth fasnachol, cynlluniau marchnata, a datblygu busnes
- Safonau masnachol, llywodraethu a gweithgareddau contract
- Gweithgareddau masnachol, marchnata a datblygu busnes presennol o fewn timau cynaeafu pren a marchnata, labordy ac ynni
- Caffael a chyllid partneriaeth

10.0. Mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu dwyn ynghyd er mwyn cryfhau gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i ymelwa'n fwy ar ei gapasiti masnachol, o fewn fframwaith llywodraethu cryf. Y prif bethau sy'n llywio hyn yw:

- Un pwynt ffocws ar ddatblygu a menter fasnachol i fwyafu'r cyfraniad i ganlyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyllid)
- Cadwyn gyflenwi well o gaffael i werthiannau, gyda ffocws ar berthnasau cwsmeriaid
- Fframwaith llywodraethu cyffredin ar draws gwasanaethau galluogi allweddol, gan ddileu rhwystrau i fasnach

11.0. Bydd elfennau darparu gweithredol gwaith ynni, pren a labordy yn cael eu lleoli yn y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau (yn unol â'n hegwyddor sy'n seiliedig ar le), ond mae'r gwaith trosfwaol i ddatblygu strategaeth fasnachol a newid diwylliant yn cael ei arwain gan yr adran hon.

12.0. Bydd yr ailstrwythuro yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad caffael a masnachol effeithiol i gefnogi amcanion Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys rheoli, mewn modd integredig, ein defnydd o Wasanaeth Caffael Cymru a hwyluso cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gyfredol berthnasol yr UE a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithgareddau masnachol a chaffael.

## Adolygiad Annibynnol o Werthiannau Pren

13.0. Penodwyd Grant Thornton ym mis Awst 2018 i gynnal adolygiad annibynnol manwl o swyddogaeth coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â rheoli gwerthiannau pren a chontractau. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Ionawr 2019, gan arwain at adroddiad ffurfiol gyda chanfyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Llywodraethu Gwerthiannau Pren ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

14.0. Gwnaeth yr adolygiad ychwanegu at y gwersi ac argymhellion gwaith a wnaed eisoes gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'r rheini gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Ei ddiben allweddol yw sicrhau nad yw'r materion llywodraethu a nodwyd yn cael eu hailadrodd.

15.0. Gellir crynhoi argymhellion allweddol yr adolygiad o dan y penawdau canlynol:

- Llywodraethu contractau gwerthiannau
- Adrodd ariannol
- Y sefydliad ehangach
- Arall

16.0. Mae cyflenwi'r Cynllun Gweithredu o'r flaenoriaeth bennaf ac mae'n cael ei reoli gan dîm prosiect penodol sy'n defnyddio methodoleg a llywodraethu rheoli prosiect. Mae'r camau gweithredu yn cael eu cyflawni yn gyflym a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Camau gweithredu sydd eisoes ar waith neu wedi cael eu cyflawni – megis hyfforddiant cyfraith gyhoeddus a newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Ariannol
- Camau gweithredu tymor byr (sy'n gyflawnadwy erbyn 31 Ionawr) – megis peidio â chaniatáu unrhyw gontractau gwerthiannau coed sy'n sefyll a mwy, datblygu adroddiadau monitro contractau, cyflwyno telerau ac amodau diwygiedig, dogfen polisi trosfwaol newydd
- Camau gweithredu tymor canolig – megis newidiadau system (TMP), datblygu adroddiadau ariannol, archwilio ffeiliau contract

## 4. Perfformiad Ynglŷn â’r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes

17.0. Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol diweddaraf hyd 2022 ym mis Mawrth 2018. Mae ein cynllun newydd wedi'i strwythuro o gwmpas ein hamcanion llesiant i gymryd deddfwriaeth newydd i ystyriaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

18.0. Mae ein Cynllun Busnes blynyddol yn amlinellu'n fanylach yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod pob blwyddyn ariannol tuag at amcanion ein cynllun corfforaethol.  Mae dolen isod i'n dangosfwrdd corfforaethol diweddaraf, sy'n olrhain cyflawni'r cynllun busnes a'r cynllun corfforaethol ar

gyfer 2018/19. Adroddir am hyn bob chwarter i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

19.0. Dangosfwrdd Perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru 2018/19

## 5. Hunan-blismona

20.0. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, adroddwyd ac adolygwyd 15 digwyddiad amgylcheddol yn ymwneud â'n gwaith (neu waith ein contractwyr).
Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, adroddwyd ac adolygwyd deg digwyddiad amgylcheddol.
Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, adroddwyd ac adolygwyd 18 digwyddiad amgylcheddol.

21.0. O'r digwyddiadau yn 2017/18, dim ond un a oedd yn cael ei ystyried yn 'uchel'. Yr amgylchiadau oedd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn adroddiad o bysgod mewn trallod yn Llyn Hendre, Llaneirwg, Caerdydd. Gwnaeth archwiliadau ddarganfod bod lefelau halltedd o fewn y llyn a Ffos Tarwick gerllaw wedi codi.

22.0. Cadarnhawyd bod yr ollyngfa i'r môr yn gollwng / wedi cael ei niweidio yn ystod y llanw cynyddol ar 5 Chwefror. Yn sgil yr anawsterau o ran cael mynediad at y falf glec ar y strwythur, gwnaed yr arolygiad gan gontractwr arbenigol ar 6 Chwefror.

23.0. Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi gan fod yr ymchwiliad wedi dod i'r casgliad y gallai'r digwyddiad fod wedi'i achosi gan ymyrraeth anhysbys gan drydydd parti.

24.0. Roedd 74 o benderfyniadau hunan-drwyddedu rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Rhagfyr 2018, ac roedd y rhain yn gymysgedd o drwyddedau echdynnu, trwyddedau morol, trwyddedau perygl llifogydd, cydsyniadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac awdurdodiadau chwynladdwr.

25.0. Cyflwynir trwyddedau tynnu dŵr gan y Tîm Trwyddedu Adnoddau Dŵr ac mae ei broses drwyddedu a deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno ein dogfennau penderfyniad i Lywodraeth Cymru graffu arnynt a chael yr opsiwn i'w 'galw i mewn'. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyson fodlon â'n penderfyniadau ar y ceisiadau. Ar ôl i ni dderbyn ymateb swyddogion Llywodraeth Cymru, fe'u hanfonir at y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i'w cymeradwyo, h.y. nid yw'r arweinydd tîm yn eu cadarnhau, sef y broses a'r lefel ddirprwyo ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn gysylltiedig â Cyfoeth Naturiol Cymru.

# 6. Grantiau a Rhaglenni Ariannu

26.0. Ym mis Mai 2017, gwnaeth Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo dull gweithredu strategol newydd i ariannu prosiectau rheoli adnoddau naturiol o 1 Ebrill 2018. Mae hwn yn ddull gweithredu dros dro cyn galw'n llawn am gyllid grant yn dilyn cyhoeddi Datganiadau Ardal ar ddiwedd 2019. Cafodd galwad agored Cyfoeth Naturiol Cymru am gyllid rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ei lansio ym mis Tachwedd 2017 ar gyfer prosiectau cyllid 18 mis hyd at fis Rhagfyr 2019, gyda chyllideb o £3 miliwn ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r pedair prif her ganlynol:

- Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd
- Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd
- Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles
- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu

27.0. Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru dderbyn 73 cais llawn, a gafodd eu hasesu gan y panel ardal / panel Cymru gyfan perthnasol. Cafodd 62 eu cymeradwyo.

- Cyfanswm gwerth prosiectau sy'n mynd rhagddynt (gyda dau yn dal i aros am gymeradwyaeth derfynol) = £5,138,232
- Cyfanswm cyfraniad cytunedig Cyfoeth Naturiol Cymru = £2,415,109
- Cyfradd ymyrraeth gyfartalog = 48%

28.0. Rydym bellach yn ymgymryd ag ymarfer gwersi a ddysgwyd ac yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid er mwyn gwneud unrhyw welliannau sy'n ofynnol cyn galwadau grant yn y dyfodol.

# 7. Sefyllfa Ariannol ac Arbedion

## Sefyllfa ariannol ddiweddaraf y corff

**Blwyddyn Ariannol 2018–19**

Cyllideb Refeniw

29.0. Yn 2018–19, cafodd ein dyraniad cymorth grant nad yw'n llifogydd gan Lywodraeth Cymru ei leihau o 5%, a oedd yn cymharu â dyraniad digyfnewid yn 2017–18 (gostyngiad o £3 miliwn). Gwnaeth ein dyraniad cymorth grant llifogydd barhau i fod ar yr un lefel arian. Mae gennym bwysau chwyddiant a chyflog hefyd. I helpu, rydym wedi parhau i gyflawni gostyngiadau i'n costau gweithredu wrth i ni leihau'r ddibyniaeth ar ein cyrff

etifeddol ac rydym wedi gwneud arbedion drwy reoli llym ar recriwtio a chyllidebau gweithredol eraill a thrwy ein safle incwm cadarnhaol.

30.0. Mae'r cynllun Gwerthuso Swyddi wedi cael effaith sylweddol ar ein cyllideb, yr ydym wedi'i rheoli drwy amrywiaeth o gamau gweithredu, gan gynnwys lleihau niferoedd staff o 50.

31.0. Ers ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn (cyllid cyfalaf yn ogystal â refeniw) i'n cynorthwyo i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd, i weddnewid, ac i ymdrin â sefyllfaoedd brys fel ymdrin â phroblemau iechyd coed (gweler Tabl 2). Rydym yn ddibynnol ar y dyraniadau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â heriau newydd gyda'n cyllid llinell sylfaen yn lleihau.

<u>Cyllideb Gyfalaf</u>

32.0. Mae ein rhaglen gyfalaf fwyaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol. Ar hyn o bryd, rydym yn gwario rhwng £15 miliwn ac £20 miliwn y flwyddyn a £19 miliwn yw'r cyfanswm yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys tua 180 o brosiectau. Mae'r prif brosiectau adeiladu ym Mhontarddulais, Crindai, y Rhath a Rhymni, a Llanfair (Cam 3). Mae'r rhaglen hefyd yn talu am fuddsoddiad TG sylweddol.

33.0. Rydym hefyd yn derbyn dyraniad llawer llai ar gyfer gwaith nad yw'n ymwneud â llifogydd – £0.8 miliwn yn ogystal â £0.9 miliwn arall ar gyfer gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru fel rheol. Mae hwn yn fater sylweddol i Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n annigonol i ni fforddio'r gwelliannau seilwaith sylweddol sy'n ofynnol ar gyfer TGCh, labordai a chronfeydd dŵr. Yn ddiweddar, gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ddeddfwriaeth, a oedd yn golygu bod rhaglen welliant sylweddol yn ofynnol ar gyfer cyrff dŵr sydd bellach yn cael eu categoreiddio fel cronfeydd dŵr heb fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru y modd i ariannu'r buddsoddiad sy'n ofynnol o fewn ein llinell sylfaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian ychwanegol i ni ar gyfer 2018–19 a 2019–20 ond heb unrhyw warant o gyllid yn y blynyddoedd dilynol.

<u>Incwm Masnachol</u>

34.0. Yn dilyn cyfnod o brisiau pren bywiog yn gysylltiedig â gwerthu pren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, mae gennym warged o incwm pren y gellir ei ail-fuddsoddi i reoli'r ystâd i helpu i ddiogelu ei botensial cynhyrchu a gwella gwydnwch yn y dyfodol. Mae graddfa'r gwarged yn gadarnhaol iawn, gyda'r amodau marchnad fywiog yn parhau drwy gydol eleni. Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i ni gynyddu'r cyfyngiad dwyn ymlaen o incwm pren fel y gallwn wneud y penderfyniadau gorau ar y defnydd o'r cyllid hwnnw. Bydd strategaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio'r cyllid hwn yn cael ei hymgorffori i'n Cynlluniau Busnes ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf a bydd yn gwneud y mwyaf o'r buddiannau y gellir eu gwireddu. Bydd

yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith coedwigaeth, gan greu mwy o goetir a phlannu mwy o goed.

Sefyllfa Gyffredinol

35.0. Adroddwyd ein sefyllfa ariannol ddiweddaraf i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Tachwedd 2018.

36.0. I grynhoi, mae ein sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer 2018–19 yn gadarnhaol, a'r her fwyaf sylweddol yw rheoli ein cyllideb pan fo'r sefydliad yn mynd drwy raglen newid fawr.

**Blwyddyn Ariannol 2019–20 a thu hwnt**

37.0. Roedd ein dyraniad cymorth grant dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn ostyngiad pellach o 5% yn ein refeniw nad yw'n ymwneud â llifogydd a dyraniad arian digyfnewid ar gyfer llifogydd. Ym mis Rhagfyr, gwnaeth Llywodraeth Cymru gadarnhau cyllid pellach o £0.8 miliwn ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â llifogydd, sy'n golygu bod y gostyngiad mewn cyllid bellach yn 3.7%.

38.0. Oherwydd newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a pholisi a phwysau ariannol a ragwelir yn y blynyddoedd i ddod, rydym yn ailgynllunio’r sefydliad, a fydd yn golygu y bydd llai o staff na’r hyn sydd gennym ar hyn o bryd mewn rhannau o'r sefydliad (yn enwedig yn yr ardaloedd a ariennir gan gymorth grant nad yw'n ymwneud â llifogydd). Rydym yn disgwyl i’n rhaglen newid gael ei chwblhau yn ystod 2019. Bydd hyn yn cael effaith ar ein huchelgeisiau ar gyfer cyflawni'r dyheadau a amlinellir gan Lywodraeth Cymru o ran cynaliadwyedd adnoddau naturiol yng Nghymru.

39.0. Rydym hefyd yn benderfynol o fod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol ac rydym wedi cynnal ein taliadau a’n ffioedd ar y lefelau, mewn termau real, a godwyd gan ein corff rhagflaenol yn 2012–13, neu’n sylweddol is na hwy. Ar gyfer 2019–20, byddwn yn cynyddu rhai trefniadau codi tâl yn unol â chwyddiant am y tro cyntaf yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn ymgynghori ar gynnydd uwch ar y ffi ar gyfer tynnu adnoddau dŵr yn sgil yr angen i ariannu'n rhannol gwelliannau cronfeydd dŵr Dŵr Cymru, fel yr amlinellir yn ein cytundebau cyfreithiol gyda nhw.

40.0. Mae gennym broblem sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â'r cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwyr ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o oddeutu 7% – a fydd yn costio £2.2 miliwn ychwanegol i ni y flwyddyn. Rydym wedi bod mewn trafodaeth ynglŷn â chyflenwi'r gyllideb o leiaf ar gyfer 2019–20.

41.0. Fel arall, gallai effaith y dyfarniadau cyflog a chwyddiant hefyd gostio rhwng £2 miliwn a £3 miliwn y flwyddyn i ni.

42.0. Ar gyfer ein gweithgareddau masnachol, byddwn yn rhoi ein Cynllun Menter ar waith, a fydd yn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd masnachol a bod ein gweithgareddau yn cynorthwyo'r rheolaeth a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. Rydym yn disgwyl i'r amodau marchnad da barhau ac mae hynny wedi caniatáu i ni gynyddu ein buddsoddiad yn yr ystad goetir a sicrhau ein bod yn cynnal ein hardystiad coedwigaeth.

43.0. Rydym hefyd wedi cytuno â'n hadran nawdd i fabwysiadu dull gweithredu mwy cyfranogol tuag at gytuno ar ein blaenoriaethau a'r setliad ariannol cysylltiedig ar gyfer 2020–21 ymlaen ac rydym wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn gweithdy a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar delerau cynlluniau a setliadau ariannol y llywodraeth.

## Manylion unrhyw geisiadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol yn ogystal â'ch dyraniad ariannol a gyllidebwyd ar gyfer 2017–18 a 2018–19 i fynd i'r afael â phwysau a chyfrifoldebau newydd.

**Cyllid Ychwanegol**

44.0. Roedd cymorth grant ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio yn 2017–18 a 2018–19 fel a ganlyn:

**Tabl 2**

| Cyllid a ddyrannwyd ar gyfer: | 2017–18 £ miliwn | 2018–19 £ miliwn |
|---|---|---|
| Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd | 4.0 | 0.0 |
| Iechyd coed | 3.5 | 3.7 |
| Deddfwriaeth, cyfrifoldebau a gwasanaethau newydd | 1.8 | 5.3 |
| Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd | 1.5 | 0.0 |
| Blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru (blaenoriaethau morol, gwastraff a basn afon yn 2017–18 a'r un rhai yn 2018–19 yn ogystal â LiDAR (£2.2 miliwn)) | 0.3 | 3.5 |
| Gweithgareddau a reoleiddir nad adenillwyd trwy ffioedd | 0.4 | 0.0 |
| Adferiad Cloddfeydd Metel | 3.3 | 0.0 |
| Cynllun Cwympo Coed Brys | 0.4 | 0.0 |
| Carbon Bositif | 0.0 | 0.4 |
| Systemau labordy | 0.0 | 0.2 |
| BREXIT | 0.0 | 0.3 |
| Taclo Tipio Cymru | 0.2 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **12.5** | **13.6** |

Noder: rydym yn disgwyl cadarnhad o gyllid pellach ar gyfer BREXIT yn 2018–19

## Y wybodaeth ddiweddaraf ar yr arbedion cyflawnadwy arian parod ac nad ydynt yn arian parod a sicrhawyd gan y corff, gan gynnwys manylion costau a buddion a wireddwyd gan y sefydliad ers iddo gael ei sefydlu, y rhagolwg costau a buddion ar gyfer y dyfodol, ac unrhyw resymau am wyro o'r rhai a ddisgwyliwyd.

### Y sefyllfa ddiweddaraf o ran Achos Busnes

45.0. Cadarnhawyd yr adroddiad olrhain cyflawniad buddion ar gyfer yr Achos Busnes[1] gan ein Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd, a oedd yn cyfiawnhau sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru fel un corff amgylcheddol yng Nghymru.

### Cymhariaeth o'r Achos Busnes Gwreiddiol, Targed Diwygiedig Llywodraeth Cymru a Rhagolwg cyfredol o'r sefyllfa erbyn diwedd Blwyddyn 10 (2022/23)

**Tabl 3**

| yr holl ffigurau mewn £ miliwn | Achos Busnes Gwreiddiol | Targed Diwygiedig Llywodraeth Cymru | Rhagolwg o'r sefyllfa derfynol ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Buddion Arian Parod | 127 | 127 | 141 |
| Costau | -69 | -66 | -78 |
| **Net** | **59** | **61** | **63** |
| **Gwerth Presennol Net** | **42** | **41** | **44** |

46.0. Mae'r ddogfen yn adrodd ar y buddion a wireddwyd o greu Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n cymharu buddion gwirioneddol ag Achos Busnes 2011 Llywodraeth Cymru, a nododd ffyrdd y byddai sefydliad newydd yn cyflawni gwell canlyniadau, gwell darpariaeth i Gymru a gwell gwerth am arian.

47.0. Mae'r adroddiad buddion terfynol hwn yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, "Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru",[2] a ddaeth i'r casgliad canlynol: "Mae CNC wedi mabwysiadu dull cadarn a threfnus i ymdopi â'r heriau mawr a oedd yn codi yn sgil ei greu[,] gan sicrhau dilyniant o ran cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, a gyda phwyslais clir ar gyflawni'r buddiannau a fwriadwyd". Nododd hefyd fod "CNC wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni arbedion ariannol a chyflawni buddiannau eraill a fwriadwyd ar adeg ei greu" ac "wedi dysgu yn sgil y cynnydd a wnaethpwyd a'r heriau a wynebwyd".

48.0. Ers adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, rydym wedi cynnal ein swyddogaethau craidd ac wedi gwneud camau sylweddol i gyflawni ein dibenion newydd, er enghraifft cyhoeddi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau

[1] "Achos Busnes yr Un Corff Amgylcheddol". Llywodraeth Cymru. 29 Tachwedd 2011. Adalwyd ar 9 Hydref 2017.
[2] "Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru". Swyddfa Archwilio Cymru. Chwefror 2016. Adalwyd ar 9 Hydref 2017.

Naturiol, bod yn bartneriaid gweithredol ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, a mabwysiadu ffyrdd cydweithredol newydd o weithio yn arwain at baratoi Datganiadau Ardal.

49.0. Rydym wedi sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad annibynnol, integredig sydd wedi dechrau cyflawni gwell canlyniadau. Er bod llawer o waith i wneud o hyd i wireddu potensial Cyfoeth Naturiol Cymru yn llawn, rydym eisoes wedi cyflawni'r holl newidiadau angenrheidiol i sicrhau'r manteision ansoddol a meintiol sy'n ofynnol o dan yr Achos Busnes.

50.0. Erbyn diwedd mis Mawrth 2018, roeddem wedi gwneud newidiadau a fydd yn crynhoi £141 miliwn o fuddion cyflawnadwy arian parod erbyn 2022–23, o'i gymharu â tharged yr Achos Busnes o £127 miliwn. Bydd set bellach o welliannau cynhyrchiant a fydd ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2018 yn crynhoi £30 miliwn o fuddion cyflawnadwy nad ydynt yn arian parod erbyn 2022–23, o'i gymharu â tharged yr Achos Busnes o £31 miliwn. Mae cyfanswm cyfunol y budd cyflawnadwy arian parod ac nad yw'n arian parod o £171 miliwn yn cymharu â tharged yr Achos Busnes o £158 miliwn.

51.0. Er mai £78 miliwn oedd cost wirioneddol creu Cyfoeth Naturiol Cymru yn hytrach na'r amcangyfrif o £69 miliwn yn yr Achos Busnes, mae'r gost ychwanegol yn cael ei mantoli a mwy gan y £14 miliwn ychwanegol o fudd cyflawnadwy arian parod.

52.0. Cyflawnwyd hwn yn erbyn cefndir llai o gymorth grant i Cyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r buddion a wireddwyd wedi helpu i liniaru effaith y gostyngiad i gyllid.

## 8. Gweithredu Deddfwriaeth

### Diweddariad ar y gost o gyflawni swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, gan gynnwys unrhyw bwysau ariannol.

53.0. Rydym wedi derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r newidiadau sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth newydd. Yn 2017, gwnaethom dderbyn £1.4 miliwn a £0.8 miliwn yn 2018/19. Rydym wedi cyflwyno ein cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 am £775k ychwanegol. Rydym yn aros am adborth ar y cais hwn. Rydym yn parhau i geisio am setliad mwy hirdymor i adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth newydd, yn hytrach na chais blynyddol sy'n cael ei gytuno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Byddai hyn yn ein galluogi i gynllunio ein hadnoddau a'n cyllid ar sail hirdymor, fwy cynaliadwy.

54.0. Ar wahân i hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo £4 miliwn dros ddwy flynedd, i gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio yn ein timau Lleoedd Gweithredol. Bwriedir i hyn gefnogi cynigion datblygu prosiect ar y cyd gyda

phartneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a datblygu a chyflawni blaenoriaethau a nodwyd yn y broses Datganiadau Ardal.

## Diweddariad ar gynnydd hyd yn hyn o ran cyflawni swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Deddfau hyn.

### Rhaglen Dysgu a Datblygu

55.0. Mae 1,300 aelod o staff bellach wedi mynychu cwrs hyfforddi Lefel 2 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Gall staff sicrhau achrediad drwy'r corff cymhwyso Agored Cymru i gefnogi eu  datblygiad proffesiynol parhaus. Hyd yn hyn, mae 100 o staff yn gweithio i sicrhau achrediad. Mae staff o Lywodraeth Cymru, cyrff anllywodraethol yr amgylchedd, awdurdodau lleol a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi mynychu'r cyrsiau hyn, a derbyniwyd adborth cadarnhaol. Mae hyfforddiant Lefel 3 ar waith i ddarparu'r wybodaeth a'r sgiliau i'r staff weithredu'r dull a amlinellir yn y canllawiau statudol. Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gynnwys yn y rhaglen dysgu a datblygu gorfforaethol, gan gynnwys fframweithiau sefydlu, arweinydd tîm, rheolwr a datblygu technegol ar gyfer timau swyddogaethol.

56.0. Mae'r rhaglen dysgu a datblygu wedi cefnogi staff i ddeall yn well diben a bwriad Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ganlyniad, rydym yn gweld tystiolaeth o staff yn gwneud defnydd gweithredol o’r ffyrdd newydd o weithio ac maent yn datblygu cyfres o astudiaethau achos a ffilmiau sy'n gallu cefnogi dysgu eraill.

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

57.0. Rydym yn cymryd rhan weithredol â'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, gan gefnogi datblygu cydweithredol i'r ymatebion i’r cynlluniau ac amcanion llesiant drwy fentrau, prosiectau a chynigion penodol. Er enghraifft, yng Nghasnewydd rydym yn helpu i hwyluso grwpiau sy'n edrych ar seilwaith gwyrdd a theithio cynaliadwy ar gyfer y ddinas.

### Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd

58.0. Mae canllawiau newydd wedi cael eu paratoi i alluogi asesiadau amgylcheddol o'n prosiectau i gael eu defnyddio fel offeryn ar gyfer ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o fewn y gwaith o ddatblygu a chyflawni ein prosiectau. Bydd hyfforddiant staff yn cael ei roi ar waith yn ystod 2019/20 i gefnogi'r gwaith hwn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu canllawiau newydd i ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'n prosesau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Y nod yw defnyddio Asesiadau Amgylcheddol Strategol fel offeryn i'n helpu i ddangos bod y cynlluniau rydym yn eu paratoi megis Cynlluniau Rheoli Basn Afon a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn ystyried yn benodol ein

diben rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn mwyafu cyfraniadau at ein hamcanion llesiant.

**Talu am Wasanaethau Ecosystemau**

59.0. Rydym wedi datblygu papur sy'n amlinellu rolau posibl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cefnogi cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau yng Nghymru, gan gynnwys annog datblygu "Marchnad Werdd" yng Nghymru i gefnogi cyflenwi cyfleoedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.

**Datblygu polisïau a dulliau gweithredu newydd Cyfoeth Naturiol Cymru**

60.0. Wrth ddatblygu polisïau a dulliau gweithredu newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi ystyried yn benodol amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac wedi gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym wedi gwneud hyn, er enghraifft, drwy'r isod:

- Paratoi'r cynllun corfforaethol a'r cynllun busnes ar gyfer 2019/20;
- Natur Hanfodol – Cyfeiriad strategol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer bioamrywiaeth hyd at 2022;
- Adolygiad o'r defnydd o arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Tystiolaeth i gefnogi Is-ddeddfau Pysgodfeydd;
- Paratoi'r adroddiad Mynd i'r Afael â Llygredd Amaethyddol – Adroddiad cynnydd gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol;
- Mapiau cyfleoedd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol;
- Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Brexit a'n Tir;
- Mae bod yn sefydliad sy'n seiliedig ar le yn ganolog i'n cynllun a'n strwythurau sefydliadol newydd; mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r ffyrdd newydd o weithio yn cael eu hadlewyrchu yn yr holl ddisgrifiadau rôl ar draws y sefydliad; disgwylir i'r Tîm Arweinyddiaeth arwain a galluogi ymgysylltu â chymunedau, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac awdurdodau lleol i greu datrysiadau arloesol sy'n cefnogi ecosystemau gwydn ac iach a’r buddiannau llesiant ehangach i gymunedau.

**Dyletswydd Bioamrywiaeth**

61.0. Yn Sioe Frenhinol Cymru, gwnaethom lansio "Natur Hanfodol". Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein cyfeiriad strategol a'r ffyrdd rydym yn bwriadu gweithio er mwyn cyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Drwy ein proses cynllunio busnes a chorfforaethol, rydym yn disgwyl i'r holl dimau a swyddogaethau ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrannu at gefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Rydym wedi ymrwymo £0.8 miliwn ychwanegol yn 2019/20 i gefnogi'r gwaith hwn.

**Canllawiau Statudol ar Ran 1 Deddf yr Amgylchedd**

62.0. Ym mis Tachwedd 2018, gwnaeth Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar Ran 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r canllawiau yn tynnu oddi ar wybodaeth sydd eisoes yn y parth cyhoeddus, megis y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil yr Amgylchedd, a gwybodaeth sydd eisoes wedi bod yn destun craffu gan Aelodau'r Cynulliad. Gwnaeth Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o baratoi'r canllawiau a rhoddwyd y cyfle i swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i drafod y canllawiau a oedd yn ymddangos a darparu mewnbwn ac adborth technegol. Roeddem yn falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru yn y fath fodd.

63.0. Ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r canllawiau statudol yn cadarnhau bod ein diben, fel y'i hamlinellir yn Adran 5 Deddf yr Amgylchedd, yn rhoi dyletswydd gyffredinol inni geisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth inni gyflawni ein swyddogaethau. Mae'r canllawiau yn cadarnhau mai rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw diben craidd Cyfoeth Naturiol Cymru, gan adlewyrchu bod adnoddau naturiol o ansawdd uchel ac ecosystemau iach a gwydn yn sail i lesiant. Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn glir mai tystiolaeth a ddarparwyd ar gymhwyso diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth gyflawni ei swyddogaethau yw'r brif ffordd a ddefnyddir gennym i ddarparu tystiolaeth ar weithredu'r Ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

64.0. Mae'r atodiad i'r canllawiau statudol yn cydnabod y bydd ymgorffori gofynion y diben newydd yn llawn ar draws holl rolau a swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd amser. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru drwy raglen ar y cyd i ystyried manylion cymhwyso'r diben a'r newidiadau a allai fod yn ofynnol i bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallem ddod ar draws rhwystrau drwy'r broses hon rhag gweithredu'r diben yn llawn a gallai fod angen deddfwriaeth a/neu ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gofyniad ar Cyfoeth Naturiol Cymru i adrodd ar gynnydd drwy'r Adroddiad Blynyddol.

65.0. Ers cyhoeddi'r canllawiau, rydym wedi nodi pum maes eang i ddechrau gweithredu'r diben rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn unol â'r siart lif penderfyniadau a nodir yn yr atodiad i'r canllawiau. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Trwyddedu amgylcheddol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol;
- Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol Coedwigaeth a gwneud penderfyniadau Glastir;
- Trwyddedu morol – yn arbennig o ran trothwyon marwoldeb morol;

- Cymhwyso rheoliadau ataliol Asesu'r Effaith ar Iechyd i'n swyddogaethau;
- Rheoli Perygl Llifogydd.

66.0. O ystyried ein gwaith gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler Adran 1.3), fel blaenoriaeth ar unwaith rydym yn canolbwyntio ar gymhwyso ein diben rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i drwyddedu amgylcheddol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

67.0. Byddwn yn adrodd ar gynnydd drwy'r Adroddiad Blynyddol.

**Diweddariad ar y trafodaethau â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar drwyddedu amgylcheddol.**

68.0. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i adeiladu perthynas adeiladol a chadarnhaol gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r "cynhyrchion" newydd y mae’r naill sefydliad a’r llall wedi cael y dasg o arwain arnynt yn neddfwriaeth Cymru yn gefnogol i'w gilydd, gan atgyfnerthu ffyrdd newydd o weithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi croesawu'r cyfle i weithio gyda'r swyddfa i archwilio rôl a diben trwyddedu amgylcheddol a chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r trafodaethau wedi bod yn helaeth, gan gynnwys:

- yr egwyddorion sy'n sail i ddatblygu deddfwriaeth trwyddedu amgylcheddol dros yr 20+ mlynedd diwethaf;
- sut mae amcanion llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru yn gysylltiedig â thrwyddedu amgylcheddol ac yn cefnogi'r nodau llesiant;
- arferion trwyddedu cyfredol, gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus ar geisiadau trwydded a'r opsiynau ymgysylltu ychwanegol a gaiff eu sbarduno ar gyfer achosion proffil uchel neu ddadleuol;
- y rhyngwyneb rhwng cynllunio defnydd tir a thrwyddedu, a chydnabyddiaeth mai cael datblygiadau yn y lle cywir yw rôl y system gynllunio;
- dull gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ymgorffori diben rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys ein hymrwymiad i osgoi meddylfryd "ticio blwch"; rôl hyfforddiant Lefel 2 rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer yr holl staff; y rôl ac uchelgais ar gyfer Datganiadau Ardal a sut y byddant yn cefnogi'r rownd nesaf o asesiadau a chynlluniau llesiant gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn cefnogi ei gilydd, a chytundeb i weithio gyda'n gilydd a Llywodraeth Cymru ar baratoi'r Canllawiau Hanfodol i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Llesiant;
- gwaith achos trwyddedu amgylcheddol penodol, i ddangos ein prosesau gwneud penderfyniadau.

69.0. O ganlyniad i'r trafodaethau, gwnaethom ymrwymo i baratoi "matrics" i ddangos golwg eglur rhwng gwneud penderfyniadau ar drwyddedau amgylcheddol, yr amcanion llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Drwy gydol yr haf, gwnaethom gyfarfod sawl gwaith i drafod y matrics a oedd yn ymddangos a'u hadborth. Ym mis Tachwedd, gwnaethom gydnabod bod angen i ni ystyried y cyfeiriad o'r canllawiau statudol i sicrhau bod y matrics wedi'i alinio â'r dull gweithredu. Gwnaethom ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i awgrymu ein bod yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd, i drafod ein meddylfryd datblygol a'r rhaglen waith bosibl i gymhwyso'r canllawiau statudol i'n swyddogaethau. Yn y cyfamser, rydym yn deall bod swyddogion Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod. Rydym yn aros am ganlyniad y trafodaethau hyn ac rydym yn ymroddedig i weithio gyda nhw i fwrw ati â'r gwaith pwysig hwn.

70.0. Rydym hefyd yn ddiweddar wedi adolygu'r cyfathrebu a'r ymgysylltu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru (pan oedd trwyddedu morol yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru) o ran y drwydded forol i waredu gwaddod a dreilliwyd o safle Hinkley C yn Cardiff Grounds. Mae hyn o ganlyniad i'r lefelau uchel o bryder cyhoeddus am y drwydded. Mae'r adolygiad wedi gwneud argymhellion y byddwn ni'n edrych ar eu gweithredu ar draws gwasanaeth trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n ystyried egwyddorion y fframwaith deddfwriaethol newydd.

## Diweddariad ar gynnydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygu Datganiadau Ardal.

71.0. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar gasglu ynghyd y dystiolaeth sydd gennym ynghyd â'r dystiolaeth o asesiadau a chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i archwilio'r heriau i'r Polisi Adnoddau Naturiol yn fanylach ar lefel sy'n seiliedig ar le. Mae'r proffiliau ardal yn cynnwys cyfres o fapiau, gwybodaeth ac astudiaethau achos a byddant yn cael eu rhannu ar ein gwefan o? Ychwanegir yn barhaus at y proffiliau ardal wrth i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a thrydydd sector rannu eu tystiolaeth i greu darlun o'r heriau, blaenoriaethau a chyfleoedd yn y lle hwnnw.

72.0. Yn ystod gwanwyn 2018, gwnaethom amlinellu'r bwriad i nodi themâu datblygol neu "ardaloedd cychwynnol i ganolbwyntio arnynt" lle gallem ganolbwyntio ein hymwneud â rhanddeiliaid. Mae'r holl themâu yn adlewyrchu'r heriau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol ac maent yn fannau cychwyn ar gyfer sgyrsiau pellach.

73.0. Rydym bellach wedi nodi'r themâu datblygol ym mhob ardal. Er enghraifft, yn ne-orllewin Cymru, mae'r rhain fel a ganlyn:

- Cefnogi canlyniadau iechyd drwy ddiogelu a gwella adnoddau naturiol a chynefinoedd presennol, gan ddod â natur i'n trefi a'n dinasoedd a gwneud ein hardaloedd gwledig yn fwy hygyrch.
- Rheoli tir gwledig anghynaladwy, gan ganolbwyntio'n arbennig ar Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.
- Cyfleoedd i wrthdroi'r dirywiad o ran bioamrywiaeth drwy'r system gynllunio, cyfranogiad cymunedol a rheoli tir yn gynaliadwy.

- Gweithio gydag eraill i leihau ein hôl troed byd-eang a sicrhau bod ein hecosystemau a chymunedau yn addasu ac yn wydn i hinsawdd sy'n newid.

74.0. Mae rhai o'r themâu hyn yn gyffredin i rannau eraill o Gymru, tra bo rhai yn benodol i le. Ein cam nesaf yw darganfod beth sy'n atal gweithredu cadarnhaol. Ein bwriad yw archwilio'r achosion gwaelodol ac ystyried pa ymyriadau a allai fod yn briodol ar y raddfa leol, ranbarthol neu ddalgylch, ac ar y raddfa genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r themâu hyn.

75.0. Ein bwriad yw dechrau ymgysylltu ar themâu'r datganiadau ardal o ddiwedd mis Chwefror ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd ymgysylltu cenedlaethol yn defnyddio fforymau cyfarfod presennol yn ogystal â dod â phobl a sefydliadau ynghyd drwy weithdai a hwyluswyd ar destunau a themâu penodol drwy'r Grŵp Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu Deddf yr Amgylchedd, a fydd yn cael ei gyd-gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Mae grŵp "ffrindiau beirniadol" cenedlaethol yn cael ei sefydlu gyda chynrychiolwyr ac academyddion o'r sector i gefnogi ein gwaith ar Ddatganiadau Ardal. Bydd ymgysylltu lleol yn parhau i fod ar waith, gan adeiladu ar rwydweithiau lleol presennol a datblygu cysylltiadau newydd.

76.0. Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn llywio proses cynllunio busnes gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru – mae pob ardal weithredol yn defnyddio'r wybodaeth i helpu i gynllunio a blaenoriaethu amser ac adnoddau staff ar gyfer blwyddyn ariannol 2019–20. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i ymgorffori Datganiadau Ardal fel rhan allweddol o'n ffyrdd o weithio.

# 9. Brexit

### Diweddariad ar oblygiadau Brexit i Cyfoeth Naturiol Cymru

77.0. Ers mis Tachwedd, rydym wedi cynyddu ein gwaith cynllunio ar gyfer Brexit "dim dêl" i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cynnal busnes fel arfer, gan reoli a lliniaru effaith y cynlluniau wrth gefn y sectorau rydym yn gweithio gyda nhw ac yn eu rheoleiddio ar amgylchedd y cynlluniau wrth gefn.

78.0. Gallai'r perygl o darfu ar lif nwyddau drwy'r porthladdoedd arwain at gwmnïau yn datblygu eu cynlluniau wrth gefn eu hunain i bentyrru stoc o fewnbynnau neu allbynnau allweddol eu prosesau cynhyrchu i gynnal parhad cyflenwad y cynnyrch i farchnadoedd. Gallai'r pentyrru stoc hwn greu perygl o lygredd. At hynny, gallai cwmnïau geisio am drwyddedau/awdurdodiadau ychwanegol.

79.0. Yr hyn sydd o bryder arbennig yw'r potensial i ddeunyddiau gwastraff fethu â gadael y wlad. Gallai hyn arwain at bentyrru stoc mewn cyfleusterau

presennol yng Nghymru. Gallai fod cynnydd hefyd mewn gweithgareddau anghyfreithlon megis digwyddiadau tipio anghyfreithlon y bydd yn rhaid i ni ac awdurdodau lleol ymateb iddynt.

80.0. Rydym yn ymroddedig i weithio mewn ffordd hyblyg ac ystwyth i ymateb i amrywiaeth o broblemau a allai godi o senario dim dêl. Mae ein staff gweithredol eisoes yn chwarae rhan weithredol mewn gwaith cynllunio ar gyfer Brexit dim dêl mewn fforymau gwydnwch lleol ledled Cymru ac rydym yn rhagweld y bydd y gweithgarwch hwn yn cynyddu.

81.0. Rydym wedi nodi pryderon strategol cychwynnol ynglŷn â pharhad busnes ac wedi llenwi Cynllun Gweithredu Brexit Dim Dêl (Cofrestr Risg), y byddwn ni'n ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus wrth i ni gael fwy o sicrwydd ynglŷn â'r materion sy'n debygol o ddeillio o ddim dêl. Mae hyn yn cwmpasu ein parodrwydd ein hunain o ran parhad busnes.

82.0. Rydym wedi paratoi cynllun cyfathrebu i gefnogi ymgysylltu â sectorau yn ogystal â llinellau i'n staff gweithredol eu cymryd.

### Trosolwg o waith a wnaed gan y corff i baratoi ar gyfer Brexit

83.0. Bydd Brexit yn cael effaith ar hyd ein sefydliad. Mae dros 600 o gyfarwyddebau a rheoliadau'r UE yn effeithio ar ein cylch gwaith, gan gwmpasu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, Gwastraff, Newid Hinsawdd ac Asesiadau Amgylcheddol. Yn ogystal â chanlyniadau amgylcheddol, bydd hefyd yn effeithio arnom fel cyflogwr ac fel caffaelwr nwyddau a gwasanaethau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i sefydliadau rhagflaenol wedi bod yn llwyddiannus o ran diogelu cyllid o dros 44.7 miliwn ewro oddi wrth ffynonellau Ewropeaidd.

84.0. Rydym wedi sefydlu rhaglen BREXIT ffurfiol, wedi'i chadeirio gan ein Cyfarwyddwr Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, sy'n rhoi diweddariadau i bob cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddwn yn parhau i fynychu cyfarfodydd o amgylch y bwrdd gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chefnogi'r saith gweithgor. Mae Brexit yn flaenllaw yn ein trafodaethau ar lefel strategol a pholisi gyda Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Treftadaeth Naturiol yr Alban, ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd Iwerddon.

85.0. Ar hyn o bryd, mae tua 125 o offerynnau statudol cywirol yn ymwneud â'n cylch gwaith yn mynd rhagddynt drwy'r broses seneddol a, phan fyddant wedi'u cwblhau, byddant yn cynnal sefyllfa bresennol y ddeddfwriaeth amgylcheddol rydym yn gweithio â hi. Mae sefydliadau'r DU yn ysgwyddo rhai cyfrifoldebau newydd a wnaed yn flaenorol gan y Comisiwn. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i ni sefydlu perthnasau cryfach neu berthnasau newydd wrth symud ymlaen. Rydym yn cadw briff gwylio ar Fil yr

Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft ac yn arbennig y cynigion ar gyfer Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd newydd.

86.0. Mae aelodau o staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael eu secondio i weithio o fewn Llywodraeth Cymru ar gynigion newydd ar gyfer rheoli tir a physgodfeydd morol.

87.0. Gwnaethom dderbyn £288k o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018/19 i gefnogi ein gwaith ar Brexit. Rydym hefyd wedi paratoi cynnig am £3.7 miliwn dros gyfnod o dair blynedd. Rydym yn aros am ganlyniad y cyflwyniad hwn.

88.0. Gwnaed £700k hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ein proses reoleiddio yn gadarn pe bai ymadawiad dim dêl, ac mae wedi cael ei ddefnyddio i ddiweddaru templedi, dogfennau a'r seilwaith TG sy'n tanategu paratoi a phrosesu trwyddedau.

## 10. Cadeirydd ac Aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

89.0. Yn dilyn ymddiswyddiad cynnar Diane McCrea fel Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd benodi Syr David Henshaw fel Cadeirydd Dros Dro Cyfoeth Naturiol Cymru o 1 Tachwedd 2018 am gyfnod o 12 mis.

90.0. Mae'r gwaith o recriwtio pum aelod newydd o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i gymryd lle'r rhai a oedd â thymhorau yn dod i ben ym mis Hydref 2018 hefyd wedi'i gwblhau. Gwnaeth Julia Cherrett, Catherine Brown, yr Athro Steve Ormerod, Dr Rosie Plummer a'r Athro Peter Rigby ddechrau eu tymhorau ar 1 Tachwedd 2018, gyda Geraint Davies yn ymuno o 1 Ionawr 2019. Mae eu proffiliau ar gael ar ein gwefan: https://naturalresources.wales/about-us/our-chair-board-and-management-team/members-of-our-board/?lang=cy

# Atodiad 1

## Crynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn llythyr cylch gwaith 2017–18 Cyfoeth Naturiol Cymru

**1. Yn y cyd-destun polisi eglur a bennwyd gan "Symud Cymru Ymlaen", amcanion llesiant cysylltiedig Llywodraeth Cymru a chyhoeddiad Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol 2017–18 / 2021–22 ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref yn 2017, gan nodi'r amcanion llesiant cysylltiedig. Dylai hwn nodi sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i ddarparu'r fframwaith polisi a deddfwriaethol newydd, gan ddangos y ffyrdd y mae'r blaenoriaethau a'r polisïau sydd wedi eu cynnwys yn y Polisi Adnoddau Naturiol yn cael eu hintegreiddio i'r dull o ddarparu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cynnig gweledigaeth nerthol a grymusol ar gyfer y staff a rhanddeiliaid.**

Cafodd ein Cynllun Corfforaethol 'Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau yfory' ei lansio yn y Senedd ar 21 Mawrth 2018 gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr newydd ar y pryd Clare Pillman.

Mae'n seiliedig ar ein saith amcan llesiant ac mae'n cysylltu'n agos â staff Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos sut mae ein gwaith 'ar lawr gwlad' yn cyfrannu tuag at eu cyflawni. Mae'n esbonio sut rydym yn cyflawni ein diben – sef rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a sut rydym yn anelu at fwyafu ein cyfraniadau at y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Cafodd y Cynllun Corfforaethol ei lansio ym mis Mawrth 2018 yn hytrach na haf 2017 fel y gallai gael ei alinio'n llawn â Pholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Mae manylion y polisi hwn a'i flaenoriaethau cenedlaethol – cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur, ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, a gweithredu dull sy'n seiliedig ar leoedd – a sut y gallwn ni helpu i'w cyflawni yn y cynllun.

Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gael ar sawl ffurf – fersiwn lawn a fersiwn gryno, ar-lein, ac ar ffurf hawdd ei deall.

**2. Dechrau datblygu gwaith yn lleol tuag at lunio datganiadau ardal, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Byrddau Gwasanaethau Lleol, ynghyd â rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol, i nodi a darparu cyfleoedd a manteision lleol yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd gan y Polisi Adnoddau Naturiol.**

Datblygu datganiadau ardal –Rydym yn cyd-gynhyrchu saith datganiad ardal fel un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan weithio gydag amrediad eang o randdeiliaid. Maent yn cwmpasu chwe ardal ddaearyddol ledled Cymru a'r amgylchedd morol. Gan ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill, bydd y datganiadau ardal yn helpu i nodi cyfleoedd a heriau lle y gall yr amgylchedd naturiol lleol helpu i fynd i'r afael ag amrediad eang o broblemau, neu eu hatal rhag gwaethygu neu ddigwydd yn y lle cyntaf. Bydd y datganiadau ardal yn helpu aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill i ystyried yr hirdymor, canolbwyntio ar atal, a nodi cyfleoedd i gydweithio ac integreiddio eu gwaith, gan gynnwys eraill megis y cymunedau lleol y mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn

eu gwasanaethu, yn ogystal â gweld yr amgylchedd naturiol fel 'rhan o'r ateb'. Mae cynlluniau llesiant pob un o'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (rhai gydag amodau). Mae'r datganiad ardal morol hefyd yn cael ei ddatblygu i gefnogi cyflenwi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio rhwng mis Medi a Rhagfyr 2017. Yna cynhaliwyd gweithdy ym mis Ionawr 2018 gyda staff ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â data a thystiolaeth. Mae'r canfyddiadau o'r gweithdy hwnnw wedi cael eu casglu ar ffurf adroddiad (Mawrth 18). Mae gweithredu parhaus i fynd â'r negeseuon hyn i feysydd gweithgaredd busnes priodol drwy'r Byrddau Busnes perthnasol fel y bo'n briodol. Dylai hyn wedyn sicrhau bod darparu tystiolaeth a data i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn diwallu eu hanghenion.

Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2017, cynhaliwyd trafodaeth â grŵp ymarferwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr argymhellion llywodraethu yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwnaeth hyn gefnogi trafodaeth ynglŷn â llywodraethu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i greu dealltwriaeth gyffredin o'r materion a'r camau gweithredu posibl ac i fynd yn ôl â hi i drafodaethau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd yr allbynnau o'r drafodaeth hefyd yn llywio unrhyw drafodaeth rhwng y Bwrdd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar lywodraethu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn llywio'r busnes ehangach mewn ffordd berthnasol.
Darparwyd dogfen ategol ar newid hinsawdd i gynrychiolwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hun. Cafodd hon ei llunio mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae cymorth mwy pwrpasol wedi parhau i gael ei ddarparu i rai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.
Mae sesiynau i ymarferwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach wedi dechrau canolbwyntio ar destunau trafod, i ganiatáu mwy o ddealltwriaeth a chysondeb ynglŷn â negeseuon ar destunau penodol. Mae hyn wedi cynnwys y prosiect Carbon Bositif a chanllawiau newid hinsawdd, ac mae sesiwn wedi'i chynllunio yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2018, i'w chynnal ym mis Ebrill 2018. Bydd hon hefyd yn cynnwys aelodau'r Bwrdd.

Mae atebion i gwestiynau cyffredin ar y ddyletswydd bioamrywiaeth newydd yn Adran 6 wedi'u cylchredeg i gynrychiolwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynhaliwyd trafodaethau â chydweithwyr datganiad ardal yn seiliedig ar y ddogfen argymhellion, gan gynnwys ar ffactorau ar gyfer llesiant fel y'u hamlinellwyd gan adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chan ystyried y cysylltiadau â'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a dangosyddion.

**3. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r anghenion tystiolaeth a nodwyd yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 a chytuno ar ddulliau o ran sut y gellid darparu'r rhain orau, a datblygu cynigion ar gyfer dangosyddion canlyniadau i fesur i ba raddau y mae rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn cael ei sicrhau ledled Cymru ar y lefel genedlaethol a lleol, gan adeiladu ar yr allbynnau cadarnhaol o'r broses o gwmpasu opsiynau ar gyfer fframwaith monitro adnoddau naturiol yn y dyfodol.**

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ddull o flaenoriaethu anghenion tystiolaeth ar gyfer asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Y bylchau tystiolaeth a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf yn 2016 oedd y dechreubwynt ar gyfer y gwaith hwn, ond wrth i'r gwaith fynd rhagddo yn ystod y flwyddyn, daeth yn glir fod angen i ni ddeall yn well sut rydym yn mynd i asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y dyfodol, cyn y gallwn nodi'r dystiolaeth fydd ei hangen arnom.

Mae'r dull ar gyfer asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy bellach wedi'i ddatblygu, gan adeiladu ar y dull a gymerwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf. Byddwn ni'n dilyn y dull hwn i nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom yn ystod y broses o lunio datganiadau ardal, a'r ail asesiad cenedlaethol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol nesaf (a fydd yn ofynnol ym mis Rhagfyr 2020).

Bydd dangosyddion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn rhan o'r asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy rydym yn ei gyflwyno yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn 2020. Gwnaeth y gwaith hwn ddechrau yn 2017 ac erbyn mis Mawrth 2018 roedd gennym "restr hir" o ddangosyddion posibl ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym yn parhau i weithio ar nodi dangosyddion addas o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gyda'r bwriad o gyhoeddi ein cynnig yn yr adroddiad interim i'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, sy'n ofynnol ym mis Rhagfyr 2019.

**4. Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau'r adolygiad o rôl a diben Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun egwyddorion ac amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.**

Gwnaethom gyhoeddi 'Diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru' yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yr haf diwethaf. Rydym bellach yn gweithio ar ddatblygu data llinell sylfaen ar gyfer y dangosyddion perfformiad.

**5. Fel Ymatebwr Categori 1, parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y darperir adroddiadau sefyllfa a phapurau briffio priodol i Weinidogion ar baratoi, ymateb ac adfer brys o ran digwyddiadau amgylcheddol categori uchel fel y nodir yng Nghanllawiau Categoreiddio Digwyddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru.**

Fel Ymatebwr Categori 1:

- rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru,
- yn mynychu cyfarfodydd parodrwydd fel Fforwm Cymru Gydnerth a Thîm Partneriaeth Cymru Gydnerth,
- ac yn darparu adroddiadau sefyllfa a phapurau briffio i Lywodraeth Cymru ar ymateb ac adfer brys o ran digwyddiadau amgylcheddol categori uchel fel y nodir yn ein Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau.

Rydym wedi parhau i gysylltu a chydweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, yn arbennig drwy gyswllt rheolaidd â'r Tîm Cydnerthu a'r Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn ogystal ag arweinwyr polisi eraill.

Mae cynrychiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gan uwch-reolwyr yn Fforwm Cymru Gydnerth wedi parhau, ac mae Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, Clare Pillman, yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, neu un o'n Cyfarwyddwyr Gweithredol ar ei rhan.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd gynrychiolaeth ar bob un o'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, gan fynychu'r cyfarfodydd a chymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi ar y cyd Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.

Mae'r Rheolwr Digwyddiadau ac Argyfyngau, neu aelod o' r tîm Digwyddiadau ac Argyfyngau yn ôl yr angen, yn mynychu cyfarfodydd â Thîm Partneriaeth Cymru Gydnerth yn rheolaidd.

Mae adroddiadau sefyllfa (SITREPS) a sesiynau briffio yn cael eu darparu i Lywodraeth Cymru yn ôl yr arfer pan fyddwn yn ymateb i* ac yn gwella ar ôl digwyddiadau categori uchel.** Mae SITREPS yn cael eu creu ar gyfer unrhyw ddigwyddiad categori uchel (a digwyddiadau rydym yn ystyried fel rhai sylweddol), ac mae'r cyfan yn cael ei raeadru i Lywodraeth Cymru drwy Dîm Cydnerthu Llywodraeth Cymru fel y cytunwyd.

*Ein hymateb ar unwaith i ddigwyddiadau effaith lefel uchel fydd cymryd y camau gweithredu priodol i liniaru niwed i bobl, cymunedau ac amgylchedd Cymru. Efallai bydd ein hymateb yn cynnwys bod yn bresennol neu beidio.
**Digwyddiad Effaith Lefel Uchel: digwyddiad y mae ei effaith yn gofyn am ymateb ar unwaith, oddi mewn i oriau swyddfa arferol a'r tu allan iddynt, er mwyn lliniaru effaith y digwyddiad.

**6. Gwella cydnerthedd cymunedol drwy’r cynlluniau rheoli perygl llifogydd blaenoriaethol a rhaglen Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru. Parhau i gasglu tystiolaeth ar y perygl o lifogydd o bob ffynhonnell trwy fapio asesiadau perygl llifogydd newydd a darparu’r Gronfa Ddata Asedau Llifogydd Cenedlaethol a gwasanaeth rhagweld a rhybuddio llifogydd cynhwysfawr.**

Gwnaethom gyflenwi rhaglen gwaith cyfalaf sylweddol, a wnaeth sicrhau bod ein hasedau perygl llifogydd wedi parhau mewn cyflwr da ac yn barod i fod o fudd i'r cymunedau maent yn eu diogelu. Gwnaethom hefyd gwblhau gwaith i leihau'r perygl o lifogydd i gymunedau megis Lecwydd (Caerdydd), gan fod o fudd i 868 o gartrefi, a Llanelwy (Sir Ddinbych), gan fod o fudd i 293 o gartrefi a 121 o fusnesau.

Mae ein gwaith ymwybyddiaeth llifogydd wedi arwain at ddatblygu pum cynllun llifogydd cymunedol newydd eleni a chynnal 100% o’r cynlluniau llifogydd cymunedol presennol. Mae’r gwaith hwn yn sicrhau bod y cynlluniau’n dal i fod yn gyfredol ac yn addas i’r diben pe bai eu hangen.

Gwnaethom gynnal pedwar digwyddiad ar gyfer arweinwyr a wardeiniaid cynlluniau llifogydd ledled Cymru ar eu cais, gan ddod â hwy at ei gilydd gydag awdurdodau rheoli risg eraill, y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol ac elusennau. Y nod oedd cynyddu rhwydweithio ar gyfer cymunedau gyda chynlluniau llifogydd yng Nghymru;

esbonio cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, yswiriant ac atebolrwydd ar gyfer gwirfoddolwyr; ac egluro'r rhain ar gyfer y dyfodol. Gwnaethom nodi cymorth pellach a allai fod yn angenrheidiol a thynnu sylw at yr hyn y gallai sefydliadau ei ddarparu. Gwnaethom hefyd anelu at gynyddu ymwybyddiaeth a rhoi cyngor ymarferol ar fesurau gwydnwch llifogydd, gan gynnwys amddiffyniad ar lefel eiddo, hyfforddiant ac yswiriant, gan gynnwys 'Flood Re'.Roedd cryn dipyn o bobl yn bresennol gyda 23 o gymunedau'n cael eu cynrychioli ledled Cymru. Bydd y digwyddiad nesaf a gynllunnir yn cael ei gynnal ym mis Mai 2018.

Mae 966 o gynlluniau llifogydd ar waith ar gyfer cymunedau a busnesau unigol ac mae 263 o wardeiniaid cynllun llifogydd yn cefnogi'r cynlluniau cymunedol. Rydym hefyd wedi gwneud 13,594 o bobl yn fwy ymwybodol a pharod ar gyfer llifogydd trwy waith ymgysylltu lleol a chenedlaethol.

Gwnaeth y gwaith o gyflenwi'r Asesiad Perygl Llifogydd newydd i Gymru fynd rhagddo yn hwylus yn 2017/18 gyda chydweithrediad awdurdodau rheoli risg eraill yn cefnogi'r adolygiad o allbynnau modelu a ddiweddarwyd ac asesu'r lefel o berygl llifogydd ledled Cymru. Bydd cynhyrchion allweddol y gwaith hwn yn cyflawni yn erbyn y camau gweithredu sy'n ofynnol o gylch nesaf y Gyfarwyddeb Llifogydd yn 2018/19.

Gwnaeth datblygiad y gronfa ddata o Asedau Perygl Llifogydd Cenedlaethol fynd rhagddo yn hwylus gyda gwybodaeth bellach yn cael ei hymgorffori o’r awdurdodau rheoli risg eraill. Bydd y wybodaeth hon yn caniatáu ar gyfer rheolaeth fwy effeithiol o'r asedau hyn yn y dyfodol ac yn helpu i gryfhau ein dealltwriaeth o berygl llifogydd a'r asedau sy'n lleihau'r perygl o lifogydd yng Nghymru.

Gwnaethom hefyd barhau i gyflawni ein gweithgareddau allweddol eraill ar gyfer rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys ein gwasanaethau parhaus fel darparu rhagolygon a rhybuddion llifogydd ledled Cymru, ein rhaglenni cynnal a chadw asedau, cyngor datblygu a chynllunio, gwelliannau i’n mapiau llifogydd, a pharatoadau ar gyfer digwyddiadau perygl llifogydd.

**7. Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i gryfhau camau i fynd i’r afael â throsedd gwastraff fel y nodir yn y gweithgor trosedd gwastraff a’r Cynllun Gweithredu ar Danau mewn Safleoedd Gwastraff.**

**Cryfhau'r fframwaith rheoleiddiol**

Gwnaethom gyflwyno ein safbwyntiau i Ysgrifennydd y Cabinet a gyda swyddogion Llywodraeth Cymru rydym yn parhau i archwilio dulliau rheoleiddiol, pwerau a chyllid ychwanegol rydym yn credu y byddent yn gwella ein gallu i ymgymryd â rheoleiddio gwastraff yn effeithiol ac annog rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae newidiadau diweddar i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol wedi gwella ein gallu i gymryd camau gweithredu yn erbyn gweithredwyr gwastraff sy'n peri risg tân – er enghraifft, drwy atal mewnbynnau o ddeunydd hylosg. Rydym hefyd wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn gwrthod ceisiadau am drwyddedau gan weithredwyr sydd

wedi methu â dangos eu cymhwysedd.  Mae dwy drwydded gwastraff wedi cael eu gwrthod ers 2017.  Mae diwygiadau diweddar i ddeddfwriaeth yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfyngu ar fynediad i eiddo sy’n trin gwastraff sy'n peri risg ddifrifol o lygredd neu dân, a'i gwneud yn ofynnol i waredu gwastraff sy'n cael ei gadw'n anghyfreithlon mewn safleoedd sydd wedi'u gadael yn wag.

Rydym hefyd yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau'r gofynion 'Cymhwysedd Gweithredwyr' ar gyfer y rheini o fewn y diwydiant gwastraff drwy newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau. Drwy godi'r meini prawf ar gyfer cymhwysedd, gallwn ei gwneud yn anos i weithredwyr gwael fynd i mewn i'r diwydiant a gwaredu'r rhai sy'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd a'n cymunedau.

**Mynd i'r afael â throseddau gwastraff**
Gwnaethom gomisiynu arbenigwyr i gynnal adolygiad o droseddau gwastraff, ac mae hwn yn amcangyfrif bod gweithgareddau troseddol a'r effaith ar economi Cymru rhwng £15.2 a £32.4 miliwn yn 2015/16, drwy dandorri busnesau gwastraff cyfreithlon, lleihau'r hyn a gymerir gan dreth, a rhoi'r costau i'r rheini sy'n gorfod clirio ar ôl y troseddwyr gwastraff.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gyd-gyfrannwr i'r Prosiect Gwastraff LIFE SMART. Ar hyn o bryd, rydym yn cymryd rhan mewn treialon arloesol sydd wedi'u hanelu at wneud asiantaethau amgylcheddol Ewrop yn fwy effeithiol o ran mynd i'r afael â throseddau gwastraff. Er enghraifft:

- Intellishare – mae'r prosiect yn treialu creu system i rannu cudd-wybodaeth ymhlith asiantaethau amgylcheddol y DU ac Iwerddon. Mae'r ffocws cychwynnol yn debygol o fod ar adnabod troseddwyr gwastraff trawsffiniol.
- Mae treialon synhwyro o bell ar waith sy'n anelu at ddatblygu model rhagfynegi sy'n helpu i adnabod ardaloedd sy'n arbennig o agored i weithgareddau gwastraff anghyfreithlon. Bydd ail ran y treial hwn yn defnyddio'r model, ochr yn ochr â delweddau lloeren, i nodi ac asesu safleoedd anghyfreithlon.
- Mae treial synhwyro o bell pellach ar waith sydd wedi'i anelu at brofi effeithiolrwydd defnyddio technoleg lloeren i ganfod pentyrrau o wastraff penodol. Ar hyn o bryd, mae'r treial yn canolbwyntio ar deiars a phlastigau.
- Mae asesiadau wedi dechrau yn ymwneud â throseddau gwastraff sy'n gysylltiedig â gweithgareddau broceriaid gwastraff a chludwyr gwastraff.
- Mae pecynnau cymorth sganio'r gorwel ac ymddygiadau cystadleuol yn cael eu datblygu sydd wedi'u hanelu at helpu asiantaethau amgylcheddol i asesu'n well effeithiau tueddiadau a digwyddiadau yn y dyfodol.

**Cryfhau ein dull gweithredu at danau mewn safleoedd gwastraff**
Mewn safleoedd gwastraff a ganiateir, mae'r canolbwyntio ar safleoedd sy'n perfformio'n wael a safleoedd perygl uchel o dân yn parhau.

- Mae ein canllawiau ar gynlluniau atal a lliniaru tân wedi cael eu diwygio a'u hailgyhoeddi.
- Mae amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwr lunio cynllun atal a lliniaru tân yn unol â'n canllawiau wedi cael eu hychwanegu at y setiau o reolau safonol ar

gyfer trwyddedau a thrwyddedau newydd pwrpasol ac amrywiadau. Cynhaliwyd rhaglen adolygu trwyddedau er mwyn ychwanegu'r cymal tân i 38 trwydded bwrpasol perygl uchel bresennol. Mae’r gwaith hwn bellach wedi symud ymlaen at drwyddedau pwrpasol perygl canolig.
- Rydym wedi derbyn ac asesu 26 cynllun atal a lliniaru tân gyda cheisiadau newydd neu amrywiadau a chafodd dau o'r ceisiadau hyn eu gwrthod oherwydd cynllun atal a lliniaru tân annigonol.
- Hyd yn hyn, mae 43 cynllun atal a lliniaru tân wedi cael eu cyflwyno ar gyfer trwyddedau rheolau safonol a phwrpasol presennol ac rydym wedi datblygu rhestr wirio i helpu ein swyddogion i asesu'r cynlluniau atal a lliniaru tân hyn.
- Gwnaeth dau secondai o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn y gogledd a'r de-ddwyrain gynorthwyo i asesu cynlluniau atal a lliniaru tân y gweithredwyr a chynnal ymweliadau ar y cyd â'n swyddogion. Gwnaeth y secondeion hefyd ddarparu sesiynau hyfforddi i'n swyddogion ar y newidiadau i'r canllawiau ar gynlluniau atal a lliniaru tân. Rydym hefyd wedi datblygu "cronfa ddata o ymholiadau cynlluniau atal a lliniaru tân". Dyma arf mewnol a ddefnyddir i gofnodi ymholiadau ar ddehongli'r canllawiau neu ymholiadau technegol a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r diwygiad nesaf i'r canllawiau.

**8. Datblygu gweithgareddau menter o fewn eich Fframwaith Llywodraethu gyda cherrig milltir ar gyfer cynhyrchu incwm, gan gynnig esiampl o ran y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a gweithio gyda phartneriaid a chymunedau, gan gynnwys cyfleoedd twristiaeth yn gysylltiedig â dull marchnata Llywodraeth Cymru ar gyfer y Flwyddyn Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018.**

Yn 2017, gwnaethom hyrwyddo deg taith gerdded â chysylltiadau chwedlonol i bobl archwilio’r tirweddau a ysbrydolodd rai o straeon hynafol Cymru. Gwnaethom ddewis pum lle i annog pobl i archwilio tirweddau sy'n gysylltiedig â straeon hynafol Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys dwy Warchodfa Natur Genedlaethol a thri choetir ledled Cymru. Roedd gan bob lleoliad wybodaeth ar gael ar y safle ynglŷn â'i gysylltiadau chwedlonol a gwnaethom hyrwyddo'r lleoedd hyn drwy adran benodol ar ein gwefan a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a ddilynodd y themâu o fewn calendr ymgyrch Croeso Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio Blwyddyn y Môr i annog pobl i fynd allan ac ymweld â'n safleoedd arfordirol a defnyddio Llwybr Arfordir Cymru. Rydym yn hybu deg lle arfordirol i bobl eu darganfod ar hyd glannau Cymru. Maent yn cynnwys cymysgedd o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol gyda thwyni tywod, coedwigoedd gerllaw traethau, ac unig Barth Cadwraeth Morol Cymru. Unwaith eto, gwnaeth yr ymgyrchoedd ar y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol gyd-fynd â chalendr Croeso Cymru.

Defnyddiwyd Blwyddyn y Môr hefyd fel canolbwynt i ysbrydoli pobl i ddarganfod mwy ynglŷn â pham fod bywyd morol Cymru yn bwysig, beth sy'n ei wneud yn arbennig, a’r hyn y gallwn ni ei wneud i wella ei gyflwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gwnaethom arddangos rhywogaeth forol wahanol bob wythnos yn ystod y flwyddyn arbennig hon, gwnaethom gynhyrchu blogiau fideo i esbonio ein gwaith, a

gwnaethom ddefnyddio'r cynnwys hwn fel cefndir ar gyfer ein stondin mewn digwyddiadau yn ystod misoedd yr haf.

Yn ôl dadansoddiadau o’n cyfryngau cymdeithasol a gwefan, cawsom 4,000 o drawiadau uniongyrchol i adran Blwyddyn y Môr y wefan, a gwnaeth ein 344 o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol arwain at 7,400 o gliciau trwodd a chyrhaeddiad o 5.2 miliwn.

**9. Parhau i nodi cyfleoedd i gefnogi datblygiad cymunedol a menter trwy wirfoddoli a pharhau gyda'r gefnogaeth i’r Rhaglen Esgyn, a pharhau i gefnogi prosiectau ynni cymunedol a choedwigoedd cymunedol ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, pan fo’n briodol.**

Mae Ysbryd y Llynfi yn brosiect coetir cymunedol wedi'i ddatblygu ar hen safle Glofa Coegnant. Roedd eisoes wedi cael ei nodi fel lleoliad delfrydol ar gyfer plannu coetir newydd ac yn 2014 gwnaethom gais llwyddiannus am gyllid gan Gyllid Natur Llywodraeth Cymru i'w drawsnewid yn goetir cymunedol a rheoli'r tir mewn ffordd wahanol, gan roi amrediad eang o fanteision. Ar yr un pryd, cafodd rhannau uchaf Cwm Llynfi eu nodi fel un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran iechyd yng Nghymru gan y GIG. Pan wnaethom ddechrau ar y prosiect, gwnaethom ymgynghori'n helaeth â phobl leol i sicrhau bod y coetir yn adlewyrchu anghenion y gymuned. Rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Mawrth 2016, cafodd 60,000 o goed eu plannu ar y safle, gan gynnwys 7,500 o goed a gafodd eu plannu gan ysgolion lleol a gwirfoddolwyr o'r gymuned. Roeddent yn cynnwys amrediad eang o rywogaethau llydanddail brodorol ynghyd â choed ffrwythau perllannau. Y nod oedd cynyddu bioamrywiaeth y safle yn ogystal â chreu cefndir deniadol ar gyfer y cwm. Mae'r safle wedi parhau i ffynnu gydag amrediad eang o brosiectau newydd, a oedd yn aml yn cael eu gweithredu gan Grŵp Coetir y Llynfi – pobl leol sy'n frwd dros yr amgylchedd.

Ynni gwynt ar y tir:
- Agorwyd Pen y Cymoedd yn swyddogol gan y Prif Weinidog a rhoddwyd Cronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol o £25 miliwn ar waith. Gwnaeth Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet, hefyd ymweld yn ystod blwyddyn ariannol 17/18 (mwy o fanylion ar hyn isod).
- Prosiect Alwen – yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'r datblygwr, gan weithio tuag at gytuno ar delerau ar gyfer y Cytundeb Opsiwn sy'n ffurfioli'r ymrwymiad, gan ganiatáu i hyd at 15% o werth y prosiect fod mewn perchnogaeth leol.

Prosiectau ynni dŵr bach:
- Prosiectau ynni dŵr cymunedol: mae Cwm Saerbren yn gynllun cymunedol 24kW ar ystâd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a ddatblygwyd gan Grŵp Croeso i'n Coetiroedd a Choetiroedd Cymunedol Llangatwg ac a adeiladwyd gan gwmni y Cymoedd Gwyrdd (TGV Hydro) wedi'i hwyluso gan y Rhaglen Darparu Ynni. Gwnaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd Hannah Blythyn ymweld â'r cynllun yn ne Cymru ym mis Chwefror 2018.

Agorwyd fferm wynt fwyaf ar y tir yng Nghymru yn swyddogol gan y Prif Weinidog. Mae Fferm Wynt Pen y Cymoedd, ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ben Cwm Rhondda a Chwm Nedd, bellach wedi cael ei datblygu gan Vattenfall, ac mae'n cynnwys 76 tyrbin sy'n cynhyrchu digon o drydan bob blwyddyn i roi pŵer sy’n cyfateb i 188,000 o gartrefi neu 15 y cant o aelwydydd Cymru. Mae ein Tîm Rhaglen Cyflenwi Ynni wedi gweithio'n agos gyda Vattenfall ers 2005 i wireddu'r prosiect ynni adnewyddadwy 228 megawat hwn. Dyma un o'r prosiectau cyntaf o dan Bortffolio Datblygu Ynni ein Cynllun Menter i gael ei gwblhau, ac mae wedi dod â manteision economaidd sylweddol i Gymru, gyda 52% o'r buddsoddiad o £400 miliwn i adeiladu'r prosiect yn mynd i fusnesau Cymru, gan sicrhau gwaith ar gyfer dros 1,000 o weithwyr Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae wedi bod yn weithredol ers gwanwyn 2017, a bydd y prosiect yn parhau i gynhyrchu trydan nad yw'n dibynnu ar danwydd ffosil tan o leiaf 2037. Nid yn unig mae ein cydweithio â Vattenfall i gyflawni'r prosiect hwn yn symbylu newid economaidd cadarnhaol ar gyfer Cymru, ond mae hefyd yn rhoi Cyfoeth Naturiol Cymru ar flaen rhaglenni economi carbon isel, newid yn yr hinsawdd a thwf gwyrdd Llywodraeth Cymru – i gyd wedi'u halinio i'n diben o reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

**Cyfle**
Cynllun Cyfoeth Naturiol Cymru yw Cyfle ar gyfer recriwtio, cydgysylltu, cefnogi a rheoli'r holl leoliadau, gan gynnwys lleoliadau a gaiff eu talu (prentisiaethau, lleoliadau addysg uwch) a lleoliadau gwaith heb eu talu (lleoliadau gwaith, lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr, lleoliadau ymchwil, lleoliadau gwirfoddoli Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae ymgynghoriad mewnol ar bolisi a gweithdrefn Cynllun Lleoliadau Cyfle yn cael ei gynnal yn ystod mis Hydref 2018 gyda'r nod o'r tîm gweithredol yn cymeradwyo'r cynllun ym mis Tachwedd a'i lansio ym mis Ionawr.

Fel rhan o'r cynnig ar gyfer lleoliadau gwaith, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd rhan yn rhaglen profiad gwaith Esgyn Llywodraeth Cymru, a gafodd ei lansio ynghanol 2014 mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. O'r naw clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru, nodwyd pedair swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn addas i gynnal lleoliadau Esgyn. Cafodd tri Datganiad Cyfrannu eu drafftio trwy weithio gyda thimau Cyfleusterau a Fflyd. Cafodd gwersi eu dysgu o'n rhan yn y cynllun. Cawsom ddau leoliad deg wythnos llwyddiannus ym Mangor a Bwcle. Mae’r Rhaglen Esgyn bellach wedi cael ei disodli gan Cymunedau am Waith a Mwy ac mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu ar ei ymwneud â'r rhaglen hon.

Rydym wedi cydweithio â'r tîm cyllid allanol i sicrhau bod mynediad at dir yn cael ei gynnwys yn yr alwad agored am gydweithio – gan dynnu sylw at y ffaith nad cyllid yn unig y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei gynnig wrth gydweithio â sefydliadau/cymunedau. O ganlyniad, gwnaeth 57 datganiad o ddiddordeb ofyn am fynediad i dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd nifer ymhob ardal, gan gynnwys rhai datganiadau o ddiddordeb ar gyfer Cymru gyfan. Ar ôl cael eu sgorio gan y paneli, mae 33 wedi cael eu gwahodd i wneud cais llawn. Mae deg o'r rheini â'r potensial i fod yn bartneriaethau tymor hwy ac mae'r 23 arall yn rhai mynediad mwy cyffredinol. Rydym wedi cael mewnbwn oddi wrth reolwyr tir, gan gynnwys rheolwyr ardal leol, rheolwyr Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac asiantiaid tir, ar bob cam o’r broses. Mae'r adborth oddi wrth gydweithwyr a phartneriaid allanol yn dda hyd yn hyn. Mae peth o'r gwaith treialu'r ffordd hon o weithio yn mynd i'r afael

rywfaint â rhai o'r materion a godwyd yn y gweithdai Gweithio gyda'n Gilydd gyda Chymunedau a gynhaliwyd yng Nghoed y Brenin a Garwnant ym mis Rhagfyr 2016, ac mae hefyd wedi bod yn gyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion y mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod ar eu traws pan ddaw grwpiau cymunedol atynt. Y cam nesaf fydd creu cytundeb templed ar gyfer mynediad at dir.

Mae saith datganiad sefyllfa ar weithgareddau ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael eu cwblhau yn dilyn ymgynghoriad a dargedwyd. Mae'r datganiadau fel a ganlyn: mynediad ar gyfer marchogaeth, gyrru cerbydau modur hamdden, beicio mynydd a seiclo, cŵn ar ein tir, ymweliadau addysg, chwilota am fwyd, a ffilmio a ffotograffiaeth. Mae ail gam y datganiadau sefyllfa allan ar gyfer ymgynghoriad mewnol ar hyn o bryd ac maent yn ymwneud â'r isod: rhedeg a cherdded, tanau agored, panio am aur a datguddio metel, gwersylla a pharcio dros nos, dringo creigiau a dringo yn ystod y gaeaf, ac awyrennau di-beilot.

**10. Chwarae rhan allweddol yn y gwaith o weithredu'r Cynllun Morol a chyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau cyffredinol fel rhan o'r gwaith o dan y Rhaglen Newid Morol**

Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad statudol ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad Cynaliadwyedd ategol ym mis Mawrth 2018. Cafodd yr ymateb ei ddatblygu gyda mewnbwn gan nifer o arbenigwyr mewnol a'i lywio gan aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau i ddarparu cyngor, o safbwynt ein rolau rheoliadol a chynghorol, ar gadarnhau a diwygio cynnwys y cynllun a'r polisi dilynol, gyda disgwyliad y bydd y cynllun terfynol yn cael ei fabwysiadu yn ystod gwanwyn 2019.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu bellach Grŵp Gwneud Penderfyniadau Awdurdodau Cyhoeddus y Cynllun Morol a gynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith yr unigolion allweddol sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r gofynion arnynt o dan gynllunio morol ac i weithredu fel fforwm ar gyfer trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod cynllunio a defnyddwyr allweddol y cynllun o awdurdodau cyhoeddus. Fel corff allweddol sy'n gwneud penderfyniadau morol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod gweithredol o'r grŵp hwn.
Yn fewnol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu'n weithredol raglen o ganllawiau er mwyn cefnogi gweithredu'r cynllun.

**11. Nodi a manteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth agosach â thimau amgylchedd awdurdodau lleol, yr Arolygiaeth Amaethyddiaeth a rheoleiddwyr eraill i gyflawni eich dyletswyddau rheoleiddio priodol chi a hwythau pan fyddant yn rhyngweithio – er enghraifft, i fynd i'r afael â niwsansau statudol neu ansawdd aer lleol, llygredd amaethyddol, neu, yn syml, pan allai arbenigedd sydd gan un rheoleiddiwr roi cymorth i un arall.**

Erbyn hyn, Cymru yw cynhyrchydd mwyaf wyau maes yn yr Undeb Ewropeaidd: bellach mae dwy iâr i bob unigolyn yng Nghymru. Er bod hyn yn dda ar gyfer yr economi, gall gael effaith andwyol ar ansawdd aer a bywyd gwyllt oherwydd y lefelau uchel o amonia y gall unedau da byw dwys eu cynhyrchu. Mae amonia yn wenwynig: gall gadael iddo gronni arwain at golli rhywogaethau a pheri difrod sylweddol i gynefinoedd. Rydym yn rhoi trwyddedau ar gyfer unedau dofednod mwy ac rydym yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hystyried gan awdurdodau lleol. Er bod allyriadau amonia wedi sefydlogi ledled y DU yn gyffredinol, maent wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru i raddau helaeth o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y dofednod. Oherwydd hyn, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn asiantaethau eraill y DU i archwilio a meintioli effaith llygredd aer o unedau da byw. O ganlyniad i'r gwaith hwn, byddwn yn sefydlu trothwyon ansawdd aer newydd ac yn defnyddio'r rhain yn sail i'n rôl drwyddedu ac i ategu ein cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi sefydlu trothwyon ansawdd aer newydd ac rydym yn defnyddio'r rhain yn sail i'n rôl drwyddedu ac i ategu ein cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio. Daeth y trothwyon newydd hyn i rym ar 1 Ebrill 2017 ac mae dogfennau canllawiau mewnol ac allanol wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r trothwyon newydd. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar gyfer ein swyddogion trwyddedu a'n swyddog cyswllt cynllunio i gefnogi lansio'r canllawiau. Cafodd cynrychiolwyr o adrannau cynllunio awdurdodau lleol lle y bo ffermydd dofednod dwys yn crynhoi, e.e. Powys, eu cynnwys hefyd o fewn y sesiynau hyfforddi hyn. Rydym yn monitro effaith y canllawiau newydd a byddwn yn adolygu/mireinio'r canllawiau fel y bo'n briodol erbyn mis Mawrth 2018. Gwnaeth cyflwyno'r trothwyon newydd beri peth pryder o fewn y gymuned amaethyddol ac rydym yn trafod yn barhaus i sicrhau bod y diwydiant yn deall y rhesymau dros y trothwyon newydd. Bydd unrhyw waith mireinio pellach i'r dogfennau canllaw yn cael ei gefnogi gan ddigwyddiad lansio i sicrhau bod y diwydiant yn deall y newidiadau a bod amser ar gael er mwyn addasu i'r gofynion.

**12. Parhau i gefnogi rhaglen Taclo Tipio Cymru trwy weithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i alluogi'r ddarpariaeth o strategaeth tipio anghyfreithlon Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, cynnal cyfathrebiad gyda rhanddeiliaid, a pharhau i fynd i'r afael â dympio gwastraff yn anghyfreithlon ar raddfa fawr, fel y diffinnir yn y Protocol Tipio Anghyfreithlon. Byddai'r camau hyn yn cefnogi nod strategol Llywodraeth Cymru o Gymru sy'n "rhydd rhag niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol wedi'i achosi gan dipio anghyfreithlon".**
**Darparu cymorth a chyngor i awdurdodau lleol wrth gyflawni eu dyletswydd i roi sylw i dir halogedig.**

Mae ein gwaith ymgysylltu â'r genhedlaeth iau yng Nghymru yn cynnwys defnyddio ein hadnodd 'Dal tipiwr anghyfreithlon' ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2, sef gêm ryngweithiol ar gyfer plant ysgol sy'n gweld "deunyddiau gwastraff" yn cael eu "tipio'n anghyfreithlon" ar iard yr ysgol ac wedyn yn cymryd rôl ditectifau amgylcheddol i ddod o hyd i'r troseddwr. Mae'r adnodd hwn, sy'n cyflawni yn unol â thargedau pwnc a rhifedd Cyfnod Allweddol 2, wedi cael ei ddosbarthu i bob un o'r 22 awdurdod lleol

ac mae'r gwasanaeth llyfrgell eisoes wedi'i ddefnyddio fel rhan o ddiwrnod gweithgaredd gyda phlant i ddathlu ailagor un o'i lyfrgelloedd. Er mwyn annog ysgolion i ddefnyddio'r adnodd hwn, bydd gweithio mewn partneriaeth gyda thimau rheoli gwastraff awdurdodau lleol yn galluogi cyflenwi fel rhan o weithgareddau cymunedol, megis casglu sbwriel, gan gyflenwi'r ysgol â'i phecynnau casglu sbwriel ei hun i'r plant eu defnyddio. Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag Academïau Adeiladu er mwyn cynnwys negeseuon dyletswydd gofal yn eu cwricwlwm, ac mae hyn yn parhau.

Yn 2017/18, gwnaeth Taclo Tipio Cymru dderbyn cyfrifoldeb dros oruchwylio dilysu data tipio anghyfreithlon a roddwyd yn WasteDataFlow a chynnal gwiriadau canol y flwyddyn / diwedd y flwyddyn i sicrhau y gallai'r data gael ei ryddhau mewn modd amserol a bod mor gywir â phosibl. Gwnaeth Taclo Tipio Cymru drefnu gweithdy WasteDataFlow ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Mawrth 2018 i helpu i hyrwyddo pwysigrwydd casglu data cywir a gwella dealltwriaeth o'r canllawiau adrodd. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â WRAP Cymru i archwilio a yw amlder casgliadau awdurdodau lleol a chau canolfannau ailgylchu gwastraff cartref yn cynyddu digwyddiadau tipio anghyfreithlon.

Rydym yn dymuno i bawb wybod sut y gallant helpu i atal tipio anghyfreithlon a sut y gallant adrodd amdano. Rydym wedi defnyddio rhwydweithiau presennol a hyrwyddwyr lleol i rannu ein neges bod tipio anghyfreithlon yn gymdeithasol annerbyniol. Mae tipio anghyfreithlon yn gysylltiedig ag ansawdd amgylcheddol lleol gwerth isel ac mae'n cael effaith niweidiol ar lesiant meddyliol y rhai sy'n byw mewn ardal. Gan ddefnyddio nodau llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel egwyddor arweiniol, mae'n hanfodol mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon mewn cymunedau lle bo'r broblem fwyaf amlwg – gan ddadansoddi digwyddiadau FlyMapper i nodi llecynnau â phroblemau o fewn ardaloedd i weithio ynddynt. Mae cyfathrebu â phreswylwyr a busnesau ynglŷn â materion gwastraff a chodi ymwybyddiaeth o'u dyletswydd gofal wedi bod yn llwyddiannus wrth weithio mewn partneriaeth. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chymdeithasau tai a sefydliadau partner i gydlynu diwrnodau clirio cymunedol, wedi ymgysylltu â thenantiaid i feithrin balchder yn eu cymuned drwy drawsffurfio mannau, ac wedi annog rheoli gwastraff cyfrifol drwy ledaenu gwybodaeth yn uniongyrchol i aelwydydd. Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Mae Taclo Tipio Cymru wedi gweithio mewn cydweithrediad â Rhentu Doeth Cymru i ymgorffori negeseuon tipio anghyfreithlon o fewn eu hyfforddiant ar gyfer landlordiaid ac ar eu gwefan. Rydym hefyd wedi darparu posteri dwyieithog i brifysgolion ledled Cymru i'w defnyddio o fewn eu hardaloedd cymunedol ac mewn llety a rennir ac rydym wedi cynnal gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu â myfyrwyr ar-lein. Mae medru parhau â'n gwaith gyda myfyrwyr prifysgolion a cholegau i sicrhau eu bod yn deall y neges dyletswydd gofal ynglŷn â rheoli eu gwastraff yn hanfodol i atal y tipio anghyfreithlon tymhorol sy'n digwydd yn yr ardaloedd hyn. Gwnaethom gynnal arolwg er mwyn deall yn well ganfyddiad y genedl o dipio anghyfreithlon. Un o ganfyddiadau mwyaf sylweddol yr arolwg oedd bod chwech allan o bob deg unigolyn yng Nghymru yn dal i gredu bod rhwystrau o ran cael gwared ar eich gwastraff yn gyfreithlon. Er mwyn helpu i newid y canfyddiad hwn, rydym wedi hyrwyddo sefydliadau ailgylchu trydydd sector fel dewis amgen i lwybrau gwaredu traddodiadol awdurdodau lleol. Yn 2017, rydym wedi datblygu

pecyn i'r cyfryngau mewn cydweithrediad â'n partneriaid ac ar gyfer ein partneriaid sy'n canolbwyntio ar y neges dyletswydd gofal ac annog aelwydydd i ailgylchu anrhegion neu eitemau cartref diangen. Mae hwn yn ddull amgen ataliol, cynaliadwy rydym eisiau annog mwy o gymunedau yng Nghymru i fanteisio arno. Byddwn ni'n defnyddio Facebook, Twitter ac YouTube er mwyn cyflawni hyn. Rydym hefyd wedi hyrwyddo ein gwaith gyda thirfeddianwyr preifat eleni ac wedi tynnu sylw at sut mae Dŵr Cymru wedi mabwysiadu technoleg FlyMapper i leihau tipio anghyfreithlon ar ei dir. Drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r cyfryngau cenedlaethol, rydym hefyd yn helpu i hyrwyddo llwyddiannau partneriaid megis erlyniadau llwyddiannus ac ymgysylltu cymunedol.

Gwnaeth Taclo Tipio Cymru ddatblygu pecyn hyfforddi e-ddysgu mewnol a roddwyd i gydweithwyr gorfodi yn Cyfoeth Naturiol Cymru a phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Gellir cael mynediad at yr adnodd cynaliadwy hwn a'i gyflenwi ar unrhyw adeg. Bu'n rhaid oedi gwaith ymchwil gyda Sgiliau er Cyfiawnder i ddatblygu cymhwyster gorfodi yn sgil Sgiliau er Cyfiawnder yn methu â diogelu cyllid hanfodol i barhau. Felly, ni chafodd y cymhwyster gorfodi ei gyflenwi.

Byddwn ni'n parhau i redeg y cyfarfodydd gweithgor (Gorfodi, Tir Preifat a Gwneud Tipio Anghyfreithlon yn Annerbyniol yn Gymdeithasol) i gyflawni’r camau gweithredu o’r Strategaeth Tipio Anghyfreithlon a hyrwyddo'r fforymau ar-lein. Ein nod yw gwella'r defnydd a chynyddu aelodaeth o’r grwpiau Hwb Gwybodaeth. Mae Taclo Tipio Cymru yn aelod o Grŵp Ailddefnyddio'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff. Hoffem barhau i weithio i hyrwyddo ailddefnyddio gwastraff ac adnoddau ac er mwyn atal gwastraff rhag cael ei dipio'n anghyfreithlon. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau Rhannu Gwybodaeth a Rhwydweithio Ailddefnyddio WRAP. Rydym wedi ymestyn yr aelodaeth ac, ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda'r grŵp tir preifat i archwilio polisi yswiriant gydag NFU Cymru i ddiogelu tirfeddianwyr preifat sy'n cael eu heffeithio gan dipio anghyfreithlon.

Er mwyn ein galluogi i ddeall sut i weithredu ymagwedd ataliol i faterion tipio anghyfreithlon yng Nghymru, mae angen i ni gael set ddata gadarn y gallwn seilio ein rhaglenni arni. Mae angen i ni wybod lle a phryd mae digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn digwydd ac mae angen i ni ddangos p'un a yw polisïau, arferion ac ymyriadau cyfredol yn effeithio ar lefelau tipio anghyfreithlon. Mae'r system FlyMapper y gwnaethom ei datblygu mewn partneriaeth â Zero Waste Scotland yn dechrau rhoi data gwell inni ac yn ein galluogi i dargedu adnoddau i'r ardaloedd lle y bo'r angen mwyaf a monitro a yw ein hymyriadau yn gwneud gwahaniaeth. Hyd yn hyn, cafodd dros 26,000 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon eu cofnodi drwy FlyMapper. Gall y system ddarparu adroddiadau cyfredol i ni yn seiliedig ar le, math o wastraff, maint y gwastraff, dyddiad a sefydliad. Gall dadansoddi ffotograffau ar y system hefyd nodi arferion cofnodi anghywir, gan ein caniatáu i ddarparu cyngor i swyddogion gwastraff a gwella ansawdd y data sy'n cael ei gasglu. Gan weithio'n agos â'r awdurdodau a sefydliadau sy'n defnyddio'r system, mae FlyMapper wedi cael ei ddatblygu i fod yn fwy nag offeryn ar gyfer casglu data yn unig, gan alluogi rhai timau i weithio mewn ffordd fwy effeithlon. Mae ychwanegu nodwedd hysbysu, er enghraifft, yn helpu rhai awdurdodau lleol i weithio'n glyfrach rhwng timau. Rydym yn parhau i weithio mewn cydweithrediad agos â defnyddwyr y system (er enghraifft, awdurdodau lleol, Cartrefi Cymoedd Merthyr, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru) i

ddatblygu nodweddion pellach yn seiliedig ar adborth defnyddwyr a blaenoriaethau yn y dyfodol.

**13. Parhau i gefnogi'r ddarpariaeth o Gynllun Rheoli Tir Cynaliadwy Glastir yn unol â'r Cytundeb Adran 83 a'r contractau Datblygu Gwledig sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda Llywodraeth Cymru.**

Mae gwaith y tîm Glastir wedi canolbwyntio ar gynyddu gorchudd y coetir wrth gynnig 'gwerth ychwanegol' ar yr un pryd sy'n ategu'r gwaith o gyflawni ein buddiannau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a llesiant.

O ran y gwaith plannu newydd ac adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol, mae'r tîm wedi galluogi dros 700 hectar o goetir newydd ac adfer coetir hynafol yn 2018, gydag 88 hectar ychwanegol yn aros am wiriad gan Lywodraeth Cymru.

Adfer Coetir
- Adfer Coetir Glastir 5 – 88.05ha
- Adfer Coetir Glastir 6 – 131.94ha

Creu Coetir
- Creu Coetir Glastir 4 – 261.80ha
- Creu Coetir Glastir 5 – 191.80ha
- Creu Coetir Glastir 6 – 206.93ha

Gwnaeth gwaith i symleiddio ein harferion arwain at lunio amrywiaeth o ganllawiau newydd a diwygiwyd nifer o reolau cynllun Glastir, gan alluogi proses ddilysu haws a mwy cyson ar gyfer gwaith coetir a'r cymorth a roddir i Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen cymorth ffermio Glastir ehangach.

**14. Bwrw ymlaen yn rhan o Raglen Weithredu Awdurdod Cyllid Cymru y ddarpariaeth o swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yng nghyd-destun Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a darpariaethau'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi.**

Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru dderbyn dirprwyo rhai o'r pwerau Treth Gwarediadau Tirlenwi Awdurdod Cyllid Cymru. Ein rôl yw cydymffurfiaeth a gorfodi, a'r set sgiliau sydd gennym yw ein gwybodaeth bresennol o weithrediadau tirlenwi, yn ogystal â mynd i'r afael â throsedd gwastraff a datblygu safbwynt strategol o'r diwydiant gwastraff. Mae'r trefniant dirprwyo ar waith am ddwy flynedd i gychwyn er mwyn caniatáu cynnal adolygiad.  Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith ac mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn cael ei sefydlu, sy'n allweddol ar gyfer llwyddiant y bartneriaeth ac sy'n rheoli pryd a ble rydym yn rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth.

Mae tîm Treth Gwarediadau Tirlenwi Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei sefydlu ac mae'n cael ei ariannu'n llawn gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r tîm yn gweithio'n dda ac mae adborth oddi wrth Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn gadarnhaol.

Bydd y tîm hwn yn darparu cyngor arbenigol ac yn cynnal asesiadau risg cydymffurfiaeth ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd y tîm hwn hefyd yn cynorthwyo gyda'r gwaith o ymchwilio i osgoi neu efadu trethi. Mae'r tîm wedi bod yn cynghori'n weithredol y rhannau perthnasol o Cyfoeth Naturiol Cymru, megis y timau rheoleiddio gwastraff a diwydiant, ynglŷn ag Awdurdod Cyllid Cymru a'u rôl fel tîm.

Byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i adfywio'r trefniadau llywodraethu i sicrhau gweithio effeithiol ar sail strategol a gweithredol. Mae cyflwyno'r gallu i godi Treth Gwarediadau Tirlenwi ar warediadau anawdurdodedig yn cynnig cyfle i weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â throsedd gwastraff. Rydym yn gweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i ddatblygu egwyddorion ar gyfer dull gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â gwaredu gwastraff anghyfreithlon. Roedd gan Awdurdod Cyllid Cymru ddiddordeb yn y mathau o achosion rydym yn eu herlyn a sut olwg sydd ar y broses o wneud penderfyniadau wrth benderfynu pryd i erlyn neu beidio. Roedd gan Awdurdod Cyllid Cymru hefyd ddiddordeb mewn pryd rydym yn defnyddio Deddf Enillion Troseddau mewn perthynas â gwaredu anghyfreithlon. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru yn cydweithio i lunio llinell sylfaen o safleoedd gwaredu anghyfreithlon ym mis Ebrill 2018.

**15. Cyflogi, a rhoi cymorth fel cynhaliwr, i'r ddau aelod o dîm cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.**

Gwnaeth tîm cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru barhau i gael ei gynnal fel rhan annatod o dîm polisi a strategaeth bioamrywiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i helpu i wella'r cysylltiadau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a chydag eraill. Gwnaeth y gwaith cynllunio ddechrau ar gyfer Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2018 a gwnaethom helpu i sefydlu grŵp llywio gyda phartneriaid allweddol, y gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ei gadeirio wedyn, i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gynhadledd a gwaith datblygu. Gwnaethom barhau i gynorthwyo partneriaethau natur lleol, drwy gyfarfodydd partneriaethau natur lleol rheolaidd, fel fforwm ar gyfer rhannu arfer da, rhwydweithio, a chyswllt uniongyrchol gyda ni a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru – yn arbennig mewn perthynas â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adran 6 a'r diweddariad ar Bolisi Cynllunio Cymru. Gwnaethom barhau i roi cymorth i grwpiau allweddol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, gan gynnwys Grŵp Gweithredu'r Cynllun Adfer Natur a'i grwpiau gorchwyl a gorffen sefydlog. Gwnaethom helpu i adfywio prosiect bylchau mewn tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'i drawsffurfiad i'r Rhaglen Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystemau. Cafodd dogfennau arfer da eu llunio yn cyfateb camau gweithredu lleol y Cynllun Adfer Natur i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac fe'u dosbarthwyd i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a holl arweinwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Darparwyd mewnbwn bioamrywiaeth hefyd i ddatblygu cynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethom gydlynu'r mewnbwn i Wythnos Natur Cymru, a gynhelir yn flynyddol, gyda digwyddiadau ar thema bywyd gwyllt ledled Cymru, a gwnaethom gynnal cyfathrebiadau Partneriaeth

Bioamrywiaeth Cymru, gan gynnwys llunio cylchlythyr misol, postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac ati, ynghyd â pharatoi i adnewyddu gwefan a brand Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

# Atodiad 2

## Crynodeb o’r camau yr ydych wedi eu rhoi ar waith i gyflawni’r blaenoriaethau a nodir yn llythyr cylch gwaith 2018–19

### 1. Datblygu sector amaethyddol mwy cadarn, cystadleuol a hunangynhaliol

Trwy ddatblygu ein ffocws ar gyflenwi rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol wrth ddarparu rhesymeg economaidd newydd ar gyfer rheolwyr tir ar yr un pryd, rydym wedi creu is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol. Mae hwn yn bartneriaeth unigryw ac eang, sy'n gweithio yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac sydd â'r uchelgais o ddileu llygredd amaethyddol ar draws Cymru.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflenwi'r cadeirydd a'r ysgrifenyddiaeth ynghyd â chymorth technegol a pholisi ychwanegol.

Mae datblygu cyd-ddealltwriaeth o achosion sylfaenol llygredd amaethyddol wedi bod wrth wraidd gwaith yr is-grŵp.

Darparwyd adroddiad interim ar waith yr is-grŵp i Ysgrifennydd y Cabinet yn gynnar ym mis Ebrill 2018. Mae cyfanswm o 45 o argymhellion yn pontio pum ffrwd waith a fabwysiadwyd gan yr is-grŵp:

- Sicrhau bod y drefn reoleiddio ffurfiol yn ddigon cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen
- Datblygu dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr tuag at reoli maetholion
- Darparu cyngor a chanllawiau gwell y gall ffermwyr wedyn eu defnyddio
- Gwella'r amrediad o gyfleoedd buddsoddi sydd ar gael ar hyn o bryd
- Nodi a hyrwyddo arloesedd

Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu cynllun gweithredu a bwydo a gweithredu argymhellion a chanlyniadau'r is-grŵp i reolwyr tir ledled Cymru.  Mae canlyniadau'r gwaith yn cael eu bwydo i Lywodraeth Cymru hefyd wrth iddi ddatblygu camau nesaf ei hymgynghoriad ‘Brexit a'n Tir’.

Yn ogystal, rydym yn:

- Cefnogi a darparu tystiolaeth mewn perthynas â rheoli tir yn dilyn Brexit a rhaglen reoleiddiol ar gyfer y sector amaethyddol.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu Brand Cymru a’r gwerthoedd brand cynaliadwy sy’n ei danategu ar gyfer y sector cynhyrchu cynradd.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu Amaethyddiaeth sy’n Glyfar o ran yr Hinsawdd.
- Gweithio gyda chyrff gwarant fferm yng Nghymru a Lloegr (Tractor Coch ac Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru) er mwyn dylanwadu ar y diwydiant mewn perthynas â chyflenwi cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ehangach.
- Datblygu cydnerthedd amgylcheddol mewn perthynas â dŵr, gan weithio gyda'r grŵp rhanddeiliaid, is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol, i gyflawni rhaglen waith i gyflenwi newid sylweddol mewn ansawdd dŵr a digwyddiadau amaethyddol.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r cynllunio wrth gefn ar gyfer amaethyddiaeth.

- Cefnogi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflawni gofynion Ewropeaidd ar gyfer trawsgydymffurfio o ran Cynllun y Taliad Sylfaenol.
- Cyfrannu at gyfeiriad strategol gwasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio a Choedwigaeth ar gyfer ffermwyr a choedwigwyr.
- Cefnogi a chynghori Llywodraeth Cymru ynghylch cyflenwi cynlluniau datblygu gwledig cyfredol. Cefnogi a chynghori Llywodraeth Cymru o ran datblygu rhaglenni monitro a thystiolaeth, offerynnau cefnogi penderfyniadau, a chamau gweithredu i ddiogelu, adfer a rheoli priddoedd yn well, gan ddiogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas Cymru er mwyn gwella ansawdd y pridd, ei gapasiti cynhyrchu a'i allu i wrthsefyll dirywiad.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i gydlynu ac ymgorffori arfer gorau o ran rheolaeth gynaliadwy o briddoedd, gan gynnwys rheoli strwythur pridd, deunydd organig (carbon), erydu, asidedd a maetholion.]

## 2. Rheoli morol cyfrifol a bargen deg ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd

Cefnogi **rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd morol** trwy ddarparu ein Rhaglen Forol, gan gynnwys gweithio ar y canlynol:

- Datblygu model cyflenwi integredig ar gyfer gwaith morol er mwyn cyflawni un Rhaglen Forol sy'n cael ei blaenoriaethu, gan gynnwys sefydlu Pennaeth Busnes Morol a Gwasanaeth Gweithrediadau Morol integredig.
- Paratoi at weithredu'r Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf i Gymru trwy wneud y canlynol:
  - Darparu cyngor a chefnogaeth barhaus i Lywodraeth Cymru ar gwblhau cynnwys a pholisïau'r cynllun morol
  - Datblygu canllawiau i gefnogi gwaith cyflenwi Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru trwy ein swyddogaethau rheoliadol a chynghori, gan gynnwys cyngor ar waith achos morol a phenderfyniadau
  - Cynghori a dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer datblygu sectorau diwydiant morol unigol yn gynaliadwy, megis ynni gwynt ar y môr
  - Darparu hyfforddiant i staff
  - Cynghori'r llywodraeth ynghylch datblygiad Strategaeth Tystiolaeth Forol ar gyfer Cymru
  - Cefnogi cynllunio gofodol morol effeithiol trwy ddatblygu data gofodol o ansawdd da i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, e.e. trwy'r prosiect 'Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy', a ariennir gan Gronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop a Llywodraeth Cymru, sy'n datblygu'r sylfaen dystiolaeth amgylcheddol o ran adnoddau ynni ffrwd lanw, ynni tonnau a dyframaeth o fewn ardal forol Cymru. Yn benodol, mae'r prosiect yn archwilio sut y gallai defnyddio'r adnoddau hyn gael effaith ar ardaloedd morol gwarchodedig a rhywogaethau a chynefinoedd sensitif eraill.

Integreiddio'r gwaith i ddatblygu a chyflawni'r Datganiad Ardal Morol, Cynllun Comisiynu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol sy'n ymwneud â'r môr, ac ymgorffori dull cyson o ran addasiad arfordirol ym mhob ardal.

- Mae hyn yn cynnwys darpariaeth o gyngor ar y perthynas rhwng Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r Datganiad Ardal Morol.
- Hefyd cychwyn gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a datblygu materion a chyfleoedd o ran tair thema forol allweddol.
- Darparu cyngor i'r llywodraeth ynghylch cwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys defnyddio Parthau Cadwraeth Morol i gwblhau'r rhwydwaith.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu a chyflenwi Fframwaith a Chynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru, gan gynnwys cyflenwi prosiectau cydweithredol i wella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig megis: asesiadau prosiect gweithgarwch pysgota, asesu effeithiau gweithgareddau nad ydynt yn drwyddedadwy, a datblygu ein dull o adrodd ynghylch cyflwr safleoedd.

Diogelu'r amgylchedd trwy **drwyddedu gweithgareddau a reoleiddir** yn effeithiol, gan gynnwys aer, tir, dyfroedd croyw a morol, pobl, rhywogaethau a chynefinoedd (mae hyn yn cyfrannu at nifer o dargedau, gan gynnwys rhai morol).

Prosiect Cronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop – I gael cynllunio gofodol morol effeithiol, mae angen data gofodol o ansawdd da y gellir ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau. Er mwyn helpu i fodloni'r gofyniad hwn, mae'r prosiect 'Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy', a ariennir gan Gronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop a Llywodraeth Cymru, yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth amgylcheddol o ran adnoddau ynni ffrwd lanw, ynni tonnau a dyframaeth o fewn ardal forol Cymru. Yn benodol, mae'r prosiect yn archwilio sut y gallai defnyddio'r adnoddau hyn gael effaith ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig a rhywogaethau a chynefinoedd sensitif eraill.

Yn ogystal, mae gennym fesur sydd wedi'i gysylltu â hwn ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef "Gweithio gydag eraill i ddatblygu ein datganiadau ardal". Rydym yn monitro hyn drwy'r flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

### 3. Rhagori ar ein targed o drosiant o £7 biliwn yn y sector bwyd a diod

Rydym yn parhau i ddatblygu Parthau Diogelu Tarddiad Dŵr ar gyfer tynnu dŵr daear ar gyfer y sector bwyd a diod, megis tyllau turio Brecon Carreg. Rydym yn arfer y polisïau sy'n gysylltiedig â'r rhain trwy'r cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu, gan gyfeirio gweithgareddau risg uchel i ffwrdd o leoliadau bregus. Mae gennym lawlyfrau ymateb i ddigwyddiadau sydd wedi'u diweddaru er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r tîm pan mae digwyddiadau llygredd yn digwydd mewn Parthau Diogelu Tarddiad Dŵr ac rydym yn blaenoriaethu adferiad cyflym yn y safleoedd hyn.

Rydym yn sicrhau bod y cyflenwad dŵr daear ar gyfer y sector bwyd a diod yn cael ei ddiogelu trwy'n gyfundrefn trwyddedu; rydym yn asesu unrhyw geisiadau newydd er mwyn sicrhau bod adnoddau rhanbarthol ar gael, ac na fydd lleihad mewn cyflenwadau sydd eisoes yn bodoli. Rydym yn datblygu polisïau a phrosesau newydd ar gyfer agweddau dŵr daear awdurdodiadau newydd er mwyn sicrhau bod

cyflenwadau ar gyfer y sector sydd eisoes yn bodoli, ond a oedd heb eu trwyddedu'n flaenorol, yn cael eu diogelu, megis yn Princes Gate.

## 4. Datblygu system gynllunio ymatebol sy'n cyflawni'n huchelgeisiau ar gyfer tai, swyddi ac amgylchedd sydd o ansawdd da

Mae'r system cynllunio defnydd tir yn fecanwaith cyflenwi strategol ar gyfer cyflawni gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym yn cyfrannu tuag at gyflawni'r flaenoriaeth hon trwy wneud y canlynol:

**Llywio a chynghori ar bolisi a deddfwriaeth y llywodraeth**

- Darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o Bolisi Cynllunio Cymru a'i gwaith paratoi ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- Darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth i hysbysu cyfundrefn gydsynio newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith mawr
- Cefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o TAN15 a datblygu canllawiau ar gyfer cyfundrefn gydsynio newydd ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy
- Darparu cyngor i Gomisiwn y Gyfraith ynghylch ei adroddiad i ad-drefnu cyfraith gynllunio yng Nghymru.
- Darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ynghylch ei diwygiadau i Lawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol i helpu i ymgorffori ac integreiddio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y system o gynlluniau datblygu.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drefnu gweithdai gydag awdurdodau cynllunio lleol er mwyn trafod y cydgysylltu rhwng Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol a datganiadau ardal.
- Darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth i hysbysu'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ynglŷn â datganiad polisi cenedlaethol newydd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni niwclear
- Darparu cyngor i'r Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â'i hadolygiad o Nodyn Cyngor 11

**Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu gweithredol yn cefnogi datblygu cynaliadwy trwy ddarparu cyngor cynllunio:

- Ymateb i ymgynghoriadau cynllunio o fewn terfynau amser statudol neu gytunedig eraill a pharatoi Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu i Weinidogion Cymru
- Gweithio o fewn fframwaith canllawiau, proses a gweithdrefnau i sicrhau cysondeb yn genedlaethol.
- Cychwyn adolygiad o'n rhaglen gwaith cynllunio a'n canllawiau i adlewyrchu degfed argraffiad Polisi Cynllunio Cymru a'r canllawiau statudol ynghylch diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei ymgorffori'n llawn o fewn ein proses, canllawiau a phenderfyniadau

- Cychwyn paratoi canllawiau ynghylch ymgorffori bioamrywiaeth o fewn ein cyngor cynllunio er mwyn sicrhau bod ein dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd yn cael ei chyflawni.
- Cychwyn paratoi datganiad sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ar seilwaith gwyrdd a'r rhaglen waith i ymgorffori gwaith cyflawni ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Parhau i wella ac ehangu gwasanaeth cyngor cynllunio datblygu dewisol Cyfoeth Naturiol Cymru (y codir ffi amdano) i fodloni'r targed incwm ariannol ac i helpu i sicrhau capasiti er mwyn parhau i ddarparu cyngor technegol ac arbenigol. Mae gwaith diwydiannau morol wedi'i gynnwys bellach o fewn cwmpas y Gwasanaeth Cyngor Datblygu.
- Mae gwyddor daear yn darparu cyngor ynghylch materion tir halogedig, gan sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio mewn modd buddiol unwaith eto heb beri risgiau annerbyniol i ddyfroedd a reolir / yr amgylchedd. Mae darparu'r gwasanaeth hwn yn sicrhau bod amcanion Polisi Cynllunio Cymru o ran tir halogedig yn cael eu bodloni.

**Gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu**

- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i baratoi canllawiau ar gyfer dull system gyfan o ran cynllunio a thrwyddedu er mwyn helpu i sicrhau dull strategol ar gyfer lleoli a dylunio datblygiadau fel bod materion yn cael sylw mewn modd systematig ar y cychwyn yn hytrach nag yn ystod y cyfnod trwyddedu. (Mae yna fwriad i ehangu'r grŵp hwn er mwyn cynnwys Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.)
- Mae gennym brosiect gwella ar y cyd gydag awdurdodau cynllunio lleol yng ngogledd Cymru sydd wedi'i gynllunio i egluro rolau priodol wrth gefnogi gwneud penderfyniadau, nodi a helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a gallu (megis hyfforddiant tirwedd), a darparu a gwneud ar gael canllawiau a deunydd gweithdrefnol. Bydd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cychwyn ar y gwaith o gyflwyno'r prosiect ar sail Cymru gyfan cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Rydym yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, yr Arolygaeth Gynllunio a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a rhanddeiliaid cenedlaethol megis Renewables UK Cymru a'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau er mwyn inni allu hysbysu'n gilydd ynghylch materion strategol neu sefydliadol yn ogystal â chynnig adborth ar gyflawni gweithredol.
- Yn ogystal, mae gennym fesur sydd wedi'i gysylltu â'r flaenoriaeth hon ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef "Ymgynghoriad cynllunio (ymateb ac ansawdd/bodlonrwydd)". Rydym ym monitro'r mesur hwn trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

## 5. Lleihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil a chynyddu defnydd o ynni adnewyddadwy

Rydym yn cyfrannu at gyflawni'r flaenoriaeth hon drwy fynd i'r afael â’r **newid yn yr hinsawdd** drwy gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy a hwyluso datgarboneiddio o fewn y sector cyhoeddus:

- Darparu cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi datblygu polisi datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, yn enwedig y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel, a chynghori ynghylch cyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr ac adrodd ar ran sector cyhoeddus Cymru i helpu cyflawni'r uchelgais ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.
- Darparu cefnogaeth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i hysbysu cyfrifo allyriadau ac adroddiadau y bydd yn galluogi datblygu cynlluniau i leihau/lliniaru allyriadau.
- Asesiad cyflawn o statws carbon net Cyfoeth Naturiol Cymru ac asesiad o opsiynau lliniaru a datblygu Cynlluniau Galluogi Carbon Bositif a chynlluniau gweithredu er mwyn cynyddu datgarboneiddio ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Ymgymryd ag asesiad strategol ac asesiad dichonoldeb safle ar gyfer gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn tair canolfan ymwelwyr a phump o brif swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Darparu asesiad dichonoldeb safle ar gyfer saith opsiwn hunangyflenwi ynni gwynt, ynni solar ac ynni dŵr a nodwyd yn flaenorol trwy asesiad strategol o botensial ffynonellau adnewyddadwy ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru a wnaed gan y prosiect Carbon Bositif.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi canllawiau ar asesu sensitifrwydd tirwedd mewn perthynas â datblygu ynni adnewyddadwy er mwyn helpu i sicrhau'r datblygiad cywir yn y lle cywir.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Ynni Dŵr Prydain i baratoi canllawiau lleoli a dylunio (canllawiau technegol) a 'Sut i Ymgeisio' (canllawiau ar gyfer y broses ymgeisio) er mwyn helpu i sicrhau bod y ceir y datblygiad ynni dŵr cywir yn y lle cywir.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y Gynhadledd Ynni a gynlluniwyd ar gyfer 31 Ionawr 2019.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau sylfaen dystiolaeth gyffredinol i danategu datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a datganiadau ardal adnoddau adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru trwy ddarparu tystiolaeth a chyngor strategol er mwyn llywio’r gwaith o ddatblygu ffermydd gwynt posibl newydd ar y môr ar Ystadau'r Goron yng Nghymru.
- Cyflawni ein rhaglen ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gweithio gyda datblygwyr i symud ymlaen â phrosiectau ynni gwynt, ac archwilio potensial y farchnad ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy eraill ar y tir a reolir gennym
- Symud drwy gam adeiladu dau brosiect ynni gwynt mawr yng Nghoedwig Brechfa a Choedwig Clocaenog, gan fesur cynnydd drwy’r capasiti/tyrbinau a osodwyd
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i nodi dulliau o gynnwys y gymuned a chreu perchnogaeth mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ar yr ystâd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Pennu potensial masnachol parciau ynni wedi’u hintegreiddio gyda datblygiadau ffermydd gwynt drwy fwrw ymlaen â rhaglen ynni dŵr, storio mewn batris, solar, biomas a thechnolegau ynni eraill

Ynni gwynt ar y tir ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Prosiect Alwen – rydym yn parhau i weithio gyda'r datblygwr er mwyn cael llofnod ar y Cytundeb Opsiwn
- Gorllewin Coedwig Brechfa – agorodd Hannah Blythyn y fferm wynt 28 tyrbin / 57MW yn swyddogol ym mis Awst a lansiwyd y gronfa gymunedol gwerth £11 miliwn ar yr un pryd. Mae'n cynhyrchu digon o bŵer ar gyfer 38,800 o gartrefi yn flynyddol.
- Coedwig Clocaenog – mae'r gwaith adeiladu yn parhau ar y prosiect 27 tyrbin / 96MW hwn gyda chronfa gymunedol gysylltiedig.
- Prosiect y Bryn – rhoddodd y Rhaglen Darparu Ynni'r cyfle datblygiad ynni gwynt ar y tir 50MW+ hwn ar y farchnad agored a disgwylir cyflwyniadau gan ddatblygwyr ym mis Rhagfyr. Mae perchenogaeth leol yn elfen allweddol o'r cyfle marchnata.

Cynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach a hwylusir gan y Rhaglen Darparu Ynni ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Mae nifer o gynlluniau a arweinir gan ddatblygwyr (â chapasiti amcangyfrifiedig o 400kW) yn cael eu hwyluso ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae rhaglen hunanadeiladu sy'n cynnwys pum cynllun (lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddatblygwr) yn cael ei chwmpasu.
- Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet gynllun ynni dŵr cymuned Corwen yng ngogledd Cymru yn swyddogol ym mis Mai 2018 a chafodd ei ddatblygu gan Gwmni Trydan Corwen.

Digwyddiad i ddatblygwyr:

- Bydd digwyddiad blynyddol i ddatblygwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n croesawu datblygwyr ynni adnewyddadwy a swyddogion ynni Llywodraeth Cymru, yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd yn Abertawe a'r cylch.

Yn ogystal, mae gennym fesur sydd wedi'i gysylltu â hwn ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef "Rhaglen ynni adnewyddadwy". Rydym yn monitro'r mesur hwn trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

## 6. Gwella iechyd a llesiant anifeiliaid

- Gwnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y 'Cytundeb ar Safonau Trapio heb Greulondeb Rhyngwladol' a byddwn yn mabwysiadu unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar gyfer ein cyfundrefn drwyddedu pan fo angen, yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.
- Rydym yn ymgynghori â staff Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau na fydd unrhyw geisiadau am drwydded moch daear yr ydym yn eu derbyn yn debygol o arwain at ledu twbercwlosis buchol (bTB) ac rydym wedi darparu cyngor ynghylch trwyddedu o amgylch rheolaeth barhaus o TB buchol mewn bywyd gwyllt gan Lywodraeth Cymru ar ffermydd ag achosion cronig mewn buchesau.
- Rydym wedi cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch risg y clefyd o ran baeddod gwyllt yng Nghymru.

- Rydym yn ymgynghori â Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru ynghylch risg y clefyd o ran cynigion trawsleoli bywyd gwyllt a cheisiadau am drwyddedau, gan gynnwys mewn perthynas ag afancod a'r wiwer goch.
- Rydym wedi darparu cyngor ar gyfer Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru.

## 7. Dod y gorau yn y byd am ailgylchu

Rydym yn cyfrannu at gyflawni'r flaenoriaeth hon mewn nifer o ffyrdd:

### Rheoleiddio cyfleusterau gwastraff

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am ddarparu dull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer rheoleiddio'r diwydiant gwastraff er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy er llesiant pobl a'r amgylchedd. Rydym yn ceisio cyflawni hyn yn uniongyrchol trwy gyflenwi ein dyletswyddau rheoleiddiol, gan ddefnyddio pwerau ac offer sydd ar gael fel y nodir mewn deddfwriaeth, ac yn anuniongyrchol trwy ymyriadau ehangach megis codi ymwybyddiaeth gyda chynhyrchwyr gwastraff er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd camau i wahanu, dosbarthu a rheoli eu gwastraff mewn modd cyfrifol.

Mewn ymateb i gyfyngiadau Tsieina ar fewnforio 24 o gategorïau deunydd ailgylchu a gwastraff solet fel rhan o ymgyrch yn erbyn "gwastraff estron" a llygredd amgylcheddol, gwnaethom flaenoriaethu archwiliadau cydymffurfio mewn safleoedd trwyddedig â chyfleusterau deunydd ym mis Ionawr 2018 er mwyn asesu’r effeithiau posibl a gwnaethom gynghori Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw bryderon a datblygiadau.
Trwy ddyletswyddau rheoleiddiol a darparu cyngor a chanllawiau, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y rheini yr ydym yn eu rheoleiddio yn deall ac yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys gofynion ynni ac effeithlonrwydd adnoddau perthnasol.

### Rôl monitro ar gyfer y Cynllun Lwfansau Tirlenwi a thargedau adfer awdurdodau lleol

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod monitro dynodedig ar gyfer targedau adfer awdurdodau lleol a'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi. Mae'n ofynnol fod awdurdodau lleol yn ein darparu â thystiolaeth fod eu gwastraff sydd wedi'i ddargyfeirio wedi bodloni'r meini prawf perthnasol er mwyn dangos eu bod wedi cyrraedd y targedau blynyddol hyn.

Mae hwn yn gosod mwy o bwyslais ar awdurdodau lleol Cymru i ddilyn llif deunyddiau unwaith y maent wedi eu casglu ac i adrodd yn gywir am ddata ar gyfleusterau didoli canolraddol, cyfraddau gwrthod a chyrchfannau. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn nodi ac adrodd am gyrchfannau'r gwastraff y maent yn ei gasglu cyn belled â bod hynny'n ymarferol. Mae hyn yn gwella'r hyder mewn ac uniondeb yr ystadegau gwastraff a gyhoeddir gan awdurdodau lleol.

Er enghraifft, o ran rheoli gwastraff pren, rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a sefydliadau eraill i fynd i'r afael â phryderon sydd gennym am wahanu, dosbarthu a chyrchfannau gwastraff pren. Rydym wedi tynnu sylw awdurdodau lleol Cymru at y pryderon hyn er mwyn sicrhau eu bod yn rheoli eu gwastraff pren yn briodol a bod cysondeb wrth adrodd am y deunydd hwn ar gyfer targedau adfer awdurdodau lleol.

**Rheoli ein hadnoddau**
Mae gennym system rheoli amgylcheddol ISO14001 achrededig. Rydym eisoes yn rheoli ein gwastraff yn weithredol o fewn ein swyddfeydd a'n cyfleusterau, gan anelu at leihau gwastraff yn y ffynhonnell a sicrhau bod unrhyw wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu yn cael ei storio'n ddiogel, ei wahanu a'i drosglwyddo i'w ailgylchu lle bo modd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Partneriaeth Moroedd Glân, gan gyfrannu at fynd i'r afael â gwastraff morol, a gwnaethom lofnodi addewid Môr Cefnfor Volvo i leihau ein defnydd o blastig untro.

Mae ein cynllun corfforaethol a lansiwyd yn 2018 yn ymrwymo i hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol trwy roi camau ar waith er mwyn gweithio tuag at economi gylchol heb wastraff yng Nghymru.

**Gweithio gydag eraill**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru mewn grwpiau rhanddeiliaid ar gyfer adolygiad pecyn Economi Gylchol yr Undeb Ewropeaidd a digwyddiadau rhanddeiliaid Economi Gylchol Llywodraeth Cymru.

Rydym yn darparu cyngor a chydlynu mewnbwn ar gyfer amrywiaeth o weithgorau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio, atal a'r economi gylchol ar hyd Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn cefnogi gwaith WRAP Cymru o ddatblygu mentrau megis:

- Aelod Bwrdd Prosiect ar gyfer Grŵp Cyngor Technegol y Gynghrair Ailddefnyddio
- Cefnogi'r prosiect Deunyddiau Crai Critigol

NODER:

- Rydym yn cefnogi uchelgais Cymru i greu economi gylchol sy'n symud i ffwrdd o'r model llinol cyfredol, lle mae deunyddiau'n cael eu bwydo i mewn i'r economi ar y dechrau a'u taflu ar y diwedd.
- Er bod cynyddu cyfraddau ailgylchu'n bwysig, mae'n hanfodol fod mecanweithiau ac ysgogwyr yn cael eu rhoi ar waith i annog atal ac ailddefnyddio gwastraff, fel y cydnabyddir gan raglen atal gwastraff Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn dibynnu'n fawr ar allforion ar gyfer ailgylchu/adfer gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'i gasglu yng Nghymru – mae hyn o dan bwysau oherwydd cyfyngiadau Tsieina ac mae mwy o wledydd yn symud tuag at osod cyfyngiadau tebyg.

Mae gwyddor daear yn cyfrannu tuag at fenter Cod Ymarfer Diffiniad Gwastraff CL:AIRE, sy'n galluogi’r ailddefnydd o briddoedd ar safleoedd datblygu gwahanol a

rhyngddynt. Mae Cod Ymarfer y Diffiniad Gwastraff yn cynnig dewis arall cynaliadwy yn lle anfon deunyddiau i safleoedd tirlenwi lle y gellir dangos eu bod yn addas ar gyfer eu defnyddio. Ein rôl yw goruchwylio bod risgiau i ddyfroedd a reolir yn cael sylw. Ers mis Ebrill 2017, mae datganiadau Cod Ymarfer y Diffiniad Gwastraff sy'n ymwneud â dros 250,000$^3$ o ddeunyddiau wedi'u derbyn, gan atal y cyfaint hwn rhag mynd i safleoedd tirlenwi o bosib.

Yn ogystal, mae gennym fesur sydd wedi'i gysylltu â hwn ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef “Effaith diwydiant a safleoedd gwastraff”. Rydym yn monitro hwn trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

## 8. Gwella ac ehangu coetiroedd yng Nghymru

Hyrwyddo a chefnogi busnes cynaliadwy drwy reoli cynhyrchiant pren: Gweithredu'r ail flwyddyn o'n cynllun marchnata pren pum mlynedd drwy gyflawni cynaeafu pren Cymru gyfan a'r rhaglen ailblannu ddilynol

- Teneuo oddeutu 2,700 hectar a llwyrgwympo oddeutu 2,000 hectar o goetir
- Cynnig 850,000 m$^3$ o bren ar y farchnad yn 2018/19 – oddeutu 150,000 m$^3$ o bren o ganlyniad i deneuo a 700,000 m$^3$ o lwyrgwympo. O gyfanswm y rhaglen 850,000 m$^3$, bydd oddeutu 700,000 m3 yn cael eu cynnig o'n rhaglen graidd a 150,000 m3 o werthiannau coed sy'n sefyll a mwy
- Cyflawni rhaglen ailstocio graidd flynyddol o 1,000 hectar a monitro yn erbyn y tir sy'n aros i gael ei ailstocio
- Darparu rhaglen ailstocio *P. ramorum* o hyd at 800 hectar
- Darparu'r seilwaith angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen gynaeafu a bodloni'r safonau amgylcheddol

Gwella gwydnwch ein hecosystemau a hyrwyddo **coetiroedd cynaliadwy ac amrywiol** drwy eu rheoli'n gynaliadwy yn y ffyrdd canlynol:

- Gweithredu a monitro ein cynllun gweithredu ar gyfer coetir brodorol a Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol
- Gwaredu ar fygythiadau mewn 580 hectar o safleoedd coetir hynafol
- Cyflawni teneuo coedamaeth er mwyn dychwelyd 275 hectar o blanhigfeydd i goetir brodorol fesul cam
- Cadw ardystiad coedwigaeth annibynnol Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig i ddangos bod ein pren yn cael ei reoli'n gynaliadwy ar gyfer cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill

**Amddiffyn ecosystemau drwy fonitro a rhoi sylw i faterion iechyd coed a phlanhigion** ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gan gynnwys *P. ramorum*, drwy wneud y canlynol:

- Parhau i gydymffurfio â'r rhaglen iechyd planhigion
- Parhau â'r gwaith o glirio 800 hectar o goed larwydd a'r rhaglen ailblannu ddilynol
- Cynnal asesiadau o iechyd planhigion a chyflwyno hysbysiadau iechyd planhigion mewn da bryd

Yn ogystal, mae gennym fesurau sydd wedi'u cysylltu â hwn ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef "Pren a rheolir yn gynaliadwy ar gyfer y farchnad (gan gynnwys contractau pren hirdymor)", "Ailstocio tir ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy (gan gynnwys Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a chynhyrchiad pren)" a "Monitro a mynd i'r afael â materion iechyd coed a phlanhigion". Rydym yn monitro'r rhain trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

Ym mis Medi 2018, cymeradwyodd ein Bwrdd raglen ambarél i greu coetiroedd a chynllun gweithredu creu coetir er mwyn canolbwyntio ar y mater hwn yn y dyfodol. Bydd y rhaglen creu coetiroedd yn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ac adnoddau priodol ar waith er mwyn cyflenwi prosiectau presennol a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer creu coetiroedd a phlannu coed yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i strwythuro o gwmpas pedair thema allweddol:

- Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dargedau creu coetiroedd
- Ymrwymo i gyfuniad o fodelau cyflenwi creu coetiroedd
- Cydlynu dull Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni uchelgais y targed i greu coetiroedd
- Cynyddu ein capasiti eirioli a chynghori.

Ceir nifer o gamau gweithredu penodol o dan bob un o'r themâu hyn, gan gynnwys:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun creu coetiroedd sy’n cyflenwi cydnerthedd economaidd a buddiannau o ran nwyddau cyhoeddus, e.e. lliniaru llifogydd mewn modd naturiol, carbon, ansawdd yr aer, cyflenwad o bren sydd wedi'i dyfu yng Nghymru. Mae hwn yn ffurfio rhan o argymhellion Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys o fewn yr ymgynghoriad ‘Brexit a'n Tir’.
- Gweithio er mwyn sicrhau bod creu coetiroedd yn rhan graidd o weledigaeth 2050 Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr amgylchedd naturiol a'i fod yn cael ei ymgorffori o fewn cynlluniau llesiant lleol (trwy gynrychiolwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) a datganiadau ardal.
- Ceisio ymrwymiad gan aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu fel "Hyrwyddwr Coed a Choetiroedd" er mwyn helpu i godi proffil creu coetiroedd a chefnogi pob math o raglenni a phrosiectau creu coetiroedd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac ym mannau eraill yng Nghymru.

O dan y rhaglen ambarél i greu coetiroedd (ac yn ôl y cynllun gweithredu), mae gwaith wedi'i ddechrau ar ddau brosiect penodol:

- **Plannu coetiroedd newydd** sy'n gysylltiedig â rhaglen cyflenwi ynni ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Bydd y coetiroedd yn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig ac maent wedi'u cynllunio'n bennaf i gymryd lle’r elfennau cynhyrchiol a dal a storio carbon a gafwyd mewn o leiaf 350 hectar o goetiroedd parhaol a gollwyd oherwydd y rhaglen cyflenwi ynni. Bydd y broses o ddewis tir addas yn canolbwyntio ar y gallu i gyflenwi buddiannau amlbwrpas naill ai trwy ymestyn coetiroedd sydd eisoes yn bodoli ym mhortffolio Ystad Goetir Llywodraeth Cymru neu drwy greu coetiroedd lle nad oes llawer i gael ar hyn o bryd.
- **Plannu coffaol** i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf (11 Tachwedd 1918) a chreadigaeth y Comisiwn Coedwigaeth (1 Medi 1919). Bydd hwn yn

brosiect tair blynedd a byddwn yn hwyluso sefydliad 730 o brosiectau plannu coed unigol sy'n cael eu harwain gan y gymuned er mwyn plannu 100 o goed am bob cyngor cymuned yng Nghymru. Byddwn yn ceisio am gyfle i wella cysylltedd cynefinoedd trwy annog gweithio ar y cyd ar draws cynghorau cymuned er mwyn mwyhau coetiroedd presennol. Byddwn yn sefydlu brand sy'n adlewyrchu'r diben coffa deuol a gellid codi ymwybyddiaeth yn effeithiol trwy ein datganiadau ardal a rolau ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn dilyn lansiad ein hadroddiad Diben Rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2018, rydym yn gweithio i gyfathrebu'r blaenoriaethau o fewn yr adroddiad i staff a rhanddeiliaid. Yn ogystal, bydd gwaith yn cychwyn yn gynnar yn 2019 i fireinio a chasglu data ynghylch y dangosyddion perfformiad sydd wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad, fel ein bod yn gallu monitro ac adrodd ar gynnydd gennym ni ac eraill yn erbyn cyflenwi'r diben a'r rôl a'r deg blaenoriaeth allweddol.

Mae gwaith yn parhau i gynhyrchu templed cynllun rheoli coedwig at ddefnydd perchnogion, asiantau a rheolwyr coetiroedd yng Nghymru. Rydym ni yng nghanol cyfnod peilot ar hyn o bryd ac mae tîm trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ysgrifennu at yr asiantau sy'n ymwneud â'r peilot y byddwn yn dechrau ystyried eu ceisiadau cychwynnol ym mis Hydref. Unwaith y mae'r cyfnod peilot wedi'i gwblhau a'i werthuso, byddwn yn cyhoeddi'r dogfennau amrywiol ar ein gwefan. Bydd y darn o waith hwn yn cyfrannu at y themâu o dan y cynllun gweithredu ar gyfer creu coetiroedd.

Yn dilyn cyfnod o brisiau pren bywiog sy'n gysylltiedig â gwerthu pren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, disgwylir y bydd gennym warged o incwm pren y gellir ei ail-fuddsoddi i reoli'r ystad i helpu diogelu ei photensial cynhyrchu yn y dyfodol a gwella cydnerthedd. Mae graddfa'r gwarged posibl yn cael ei phenderfynu ar hyn o bryd, ac yna bydd gwaith yn cael ei gynllunio er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddiannau y gellir eu gwireddu. Mae'n debygol o gynnwys buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith coedwigaeth.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rhan mewn prosiect arloesol newydd yng nghanolbarth Cymru o'r enw Summit to Sea / O'r Mynydd i'r Môr. Bydd y prosiect yn dod ag un ardal barhaus sy'n gyfoethog o ran natur at ei gilydd, sy'n ymestyn o fasiff Pumlumon – yr ardal uchaf yng nghanolbarth Cymru – i lawr trwy gymoedd coediog i aber Afon Dyfi ac allan i Fae Ceredigion. O fewn pum mlynedd, bydd yn cynnwys o leiaf 10,000 hectar o dir a 28,400 hectar o'r môr. Diben y prosiect yw dangos y gellir cael dyfodol gwahanol i'r tir a'r môr sy'n gweithio ar gyfer pobl a natur. Mae'n fenter sy'n anelu at adfer ecosystemau sy'n ffynnu ac economi leol gydnerth, ar raddfa na welwyd erioed o'r blaen ym Mhrydain. Yn ddiweddar, mae'r prosiect wedi sicrhau £3.4 miliwn mewn arian dros gyfnod o bum mlynedd trwy'r Rhaglen Endangered Landscapes. Y mae'n un o ddim ond wyth prosiect ar draws Ewrop sydd wedi derbyn yr arian hwn. Bydd yn cefnogi ymdrech sylweddol a pharhaus i greu cyfleoedd newydd o fewn ardal y prosiect, a seilwaith i gyflawni newid yn y dyfodol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddod â buddsoddiad ychwanegol i mewn ac i ddatblygu cyfleoedd economaidd eraill i gynnal y gwaith yn y tymor hirach.

Y partneriaid eraill sy'n cymryd rhan yn y prosiect yw Dad-ddofi Prydain, Coed Cadw, yr Ymddiriedolaethau Natur, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Sefydliad Tir Gwyllt Cymru, Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Pen Llŷn a'r Sarnau, Sefydliad Waterloo, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, y Gymdeithas Cadwraeth Morfilod a Dolffiniaid, ac Ecodyfi.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnig gwaith posib gwerth dros £2 filiwn y gallem ei gyflawni ar dir yr ydym yn ei reoli (Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn bennaf), gan gynnwys gwaith i ailstrwythuro'r coedwigoedd, adfer safleoedd coetir hynafol, adfer mawndir, gwella cyfleusterau canolfannau ymwelwyr, gwella cyfleusterau hamdden, ac ymgymryd â gwaith gwella rhwystrau pysgod. Rydym yn trafod â phartneriaid i flaenoriaethu a chytuno ar yr hyn fydd yn cael ei ariannu a sut y byddwn yn strwythuro ein cyfraniad at y prosiect presennol hwn.

## 9. Mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael

- Trwyddedau sy'n ystyried ac yn rheoli allyriadau sy'n effeithio ar ansawdd yr aer, ynghyd â darparu cyngor cynllunio a chyngor arall i bartneriaid, gan gynnwys effaith ansawdd yr aer ar ecosystemau

Rydym yn parhau i sicrhau bod allyriadau i'r aer yn cael eu rheoli fel nad oes unrhyw niwed i iechyd dynol neu ecosystemau o ganlyniad i ddatblygiadau newydd neu rai sy'n ehangu, gan ganiatáu twf economaidd ar yr un pryd.

Rydym wedi gofyn am wybodaeth gan ein holl gwsmeriaid yn y sector hylosgi fel ein bod yn gallu gweithio tuag at uwchraddio eu trwyddedau er mwyn sicrhau bod eu hallyriadau i'r aer yn cael eu lleihau ac felly'n cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr aer.

Rydym yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru a sefydliadau llywodraethol i wella ansawdd yr aer lle mae mater wedi'i nodi gan wyddoniaeth dinasyddion. Ym mis Awst, gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau ar ffynonellau llygredd nicel yng Ngwm Tawe i grŵp corff anllywodraethol. Roedd hyn wedi'n galluogi i gydweithio ag eraill i ganolbwyntio'n gwaith mewn modd priodol i leihau llygredd nicel yn yr ardal.
Rydym wedi monitro a dadansoddi data ar gyfer allyriadau Benzo(α)pyrene o waith dur Port Talbot, gan alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i ymholiadau gan yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn prosiect gwyddoniaeth dinasyddion i fonitro halogiad gronynnol yng nghyffiniau ysgolion cynradd yng Nghaerdydd. Rydym wedi gweithio gyda Chyngor Dinas Caerdydd i ddatblygu llenyddiaeth i hysbysu a helpu'r ysgol i fonitro yng nghyffiniau'r ysgol. Rydym hefyd wedi gallu cyfrannu tuag at brynu monitorau gronynnol at ddefnydd disgyblion. Mewn rhai achosion, unwaith y mae'r disgyblion wedi monitro am fis, bydd parthau dim parcio yn cael eu gweithredu yn ystod amserau gadael/casglu am gyfnod o fis. Bydd data yn cael ei ddychwelyd i'r ysgol unwaith bydd y monitorau wedi'u dadansoddi gan ymgynghorwyr Ricardo ac yna'u tynnu i ffwrdd i weld sut yr effeithir ar ansawdd yr aer.

Mae ein prosiect gwyddoniaeth dinasyddion ysgolion yn rhan o fenter ar draws yr Undeb Ewropeaidd gan fforwm Asiantau Amgylcheddol Ewrop a byddwn yn mynychu fforwm trafodaeth yn Copenhagen ym mis Hydref i rannu profiadau a dysgu o asiantaethau eraill ar draws Ewrop.

Rydym yn parhau i gefnogi datblygiad y datganiadau ardal, gan sicrhau bod gwelliannau mewn ansawdd yr aer yn cael eu cynnwys o fewn cynlluniau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lle bynnag y mae eu hangen.  Yn ogystal, mae gennym fesur sydd wedi'i gysylltu â hwn ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef "Gweithredu ar ran ansawdd yr aer". Rydym yn monitro hwn trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

**10. Gwella dealltwriaeth o werth natur, gan gynnwys drwy barciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol**

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r tirweddau dynodedig i ddatblygu a chytuno ar raglen waith i gyflawni datganiad polisi Llywodraeth Cymru 'Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol'. Mae cyfarfod wedi'i drefnu i drafod hwn ar 31 Ionawr 2019.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol o ganlyniad i gais gan Hannah Blythyn ar faterion sydd angen mynd i'r afael â hwy i ddarparu mwy o gydraddoldeb rhwng Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. Rydym wedi gweithio gyda'r tirweddau dynodedig i baratoi adroddiad ar y cyd, a gafodd ei gyflwyno i'r Gweinidog ar 2 Hydref 2018. Cafwyd cyfarfod ar ôl hynny gyda'r Gweinidog ar 14 Tachwedd 2018, lle cafodd cais ei wneud ar gyfer gwaith pellach ar ddarparu adnoddau. Cwblhawyd a chyflwynwyd hwn ar gyfer ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru ar 18 Rhagfyr 2018.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes rheoli adnoddau naturiol i archwilio a gwella ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear o dan raglenni mesurau'r Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr.  Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â rhaglen o fonitro gwaelodlin mewn naw safle sydd wedi'u difrodi neu sydd 'mewn perygl' ar draws Cymru, gan nodi pwysau a gweithio gyda chydweithwyr i nodi datrysiadau.  Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys y gwaith yr ydym yn ei wneud yn Ardal Cadwraeth Arbennig Merthyr Mawr ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y ffeniau alcalïaidd ar Ynys Môn.

Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr ecolegol yn y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i nodi safleoedd sy'n ddibynnol ar ddŵr daear nad ydynt wedi'u deall yn iawn ac sydd o dan bwysau; rydym yn gweithio mewn partneriaeth i fonitro'r safleoedd â'r flaenoriaeth uchaf, gan ddarparu arbenigedd hydroddaearegol. Rydym yn rhan o Dîm Gorchwyl Gwlyptir y DU, sydd yn cynnwys rheoleiddwyr eraill y DU, Lloegr Naturiol ac Arolwg Daearegol Prydain, sydd â'r amcan i gynhyrchu dull cyson i archwilio ac asesu safleoedd gwlyptir sy'n ddibynnol ar ddŵr daear ar draws y DU.

Yn ogystal, mae gennym fesurau sydd wedi'u cysylltu â hwn ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef "Gweithredu 'Natur Hanfodol' – Adfer, creu a gwella cynefin a gwella bioamrywiaeth" ac "Adeiladu cydnerthedd ecosystemau drwy wella statws cadwraeth y nodweddion ar safleoedd gwarchodedig wrth weithio gyda'n partneriaid". Rydym yn monitro'r rhain trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

## 11. Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth

**Datblygu a gweithredu Natur Hanfodol: Rydym wedi datblygu Natur Hanfodol:** Gwneud y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a'r bobl a'r lleoedd yng Nghymru, ein cyfeiriad strategol ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'n cynrychioli datganiad o'n blaenoriaethau, cyfeiriad ein taith bwriedig, a ffyrdd o weithio i helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu cydnerthedd ecosystemau. Mae wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'n Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 a, thrwy gyfres o nodau ac ymrwymiadau lefel uchel, mae'n sefydlu fframwaith lefel uchel i yrru camau gweithredu ymlaen yn unol â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

- Adfer, creu a gwella cynefin a gwella bioamrywiaeth.
- Cyflwyno newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn gweithio, i ymgorffori cynnal a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu cydnerthedd ecosystemau i mewn i holl swyddogaethau ein sefydliad fel eu bod yn cael eu hystyried yn ystod pob cam wrth wneud penderfyniadau, cynllunio a chyflawni prosiectau.
- Defnyddio amrediad o offer a mesurau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio'n uniongyrchol a gydag eraill ar safleoedd dynodedig i gyflawni eu hamcanion cadwraeth. Mae hyn yn cynnwys cydsynio statudol a chydsynio mewn perthynas â gwaith sy'n effeithio ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), asesu cynlluniau a phrosiectau sy'n cael effaith ar safleoedd Ewropeaidd, gwaith cydymffurfio a gorfodi, cytundebau rheoli gyda rheolwyr, a gweithgareddau rheoli uniongyrchol ar dir sy’n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru neu a reolir ganddo.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill, a hwylusir gan rannu gwybodaeth ar y materion a chamau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn cymryd camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â materion rheoli cadwraeth ac i adeiladu cydnerthedd ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi rhaglen waith flynyddol o gamau gweithredu i wella statws cadwraeth y nodweddion sydd ar safleoedd gwarchodedig.
- Trawsnewid systemau TGCh ein safleoedd dynodedig i gefnogi cydweithio gyda rhanddeiliaid sefydliadol yn fwy effeithlon.
- Archwilio ffyrdd o gyflwyno adnoddau ariannol ychwanegol i fynd i'r afael â'r heriau – er enghraifft, cyflwyno arian allanol gyda cheisiadau i gronfa LIFE yr Undeb Ewropeaidd a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, a dulliau arloesol megis Talu am Wasanaethau Ecosystem (PES) a mentrau'r Farchnad Werdd.
- Datblygu ein dealltwriaeth o'r cysyniad o gydnerthedd ecosystemau a ffyrdd o'i asesu, a datblygu'r data a'r sail dystiolaeth i gefnogi'r ddealltwriaeth honno, gan gydnabod pwysigrwydd allweddol asesu cyflwr bioamrywiaeth wrth ddiffinio ac asesu cydnerthedd ecosystemau a sut y gallai newid dros amser.

- Defnyddio ein harbenigedd i nodi a chyfathrebu cyfleoedd a buddion ar gyfer hyrwyddo ail-greu ac adfer cynefinoedd naturiol a phoblogaethau bywyd gwyllt, yn arbennig drwy'r broses datganiad ardal.
- Ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cadarnhaol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy ein hymgysylltiad â'r system cynllunio datblygiadau a chyda'r Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys drwy ein rôl fel ymgynghorai ar ddatblygiad y fframwaith cynllunio ei hun ac wrth baratoi cynlluniau, yn ogystal â'n rôl fel ymgynghorai statudol a rheoleiddiwr prosiectau a datblygiadau unigol.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn gwella cynefinoedd afonydd ledled Cymru, yn arbennig drwy ddatblygu Cynlluniau Adfer Afonydd, gan ddod â thystiolaeth ynghyd o ffynonellau niferus i ddiffinio cyfyngiadau a galluogi blaenoriaethu adnoddau ar gyfer yr effaith orau. Bydd y canolbwynt penodol ar adfer cynefinoedd dirywiedig, gwaredu rhwystrau i gysylltedd ecolegol, a sefydlu eog yr Iwerydd fel rhywogaeth ddangosol allweddol ar gyfer cyflwr ein hafonydd.

Diogelu'r amgylchedd drwy **drwyddedu gweithgareddau rheoledig** yn effeithiol, gan gynnwys aer, tir, dyfroedd croyw a morol, pobl, rhywogaethau a chynefinoedd:

- Parhau i ddatblygu'r Farchnad Werdd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Talu am Wasanaethau Ecosystemau

Yn ogystal, mae gennym fesur sydd wedi'i gysylltu â hwn ar ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2018/19, sef "Gweithredu 'Natur Hanfodol' – Adfer, creu a gwella cynefin a gwella bioamrywiaeth" a "Cadw ardystiad coedwig yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig". Rydym yn monitro'r rhain trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd ar gynnydd i Dîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter.

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P-LG-0183-19

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7 Chwefror 2019

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Ionawr lle y gwnaethoch grynhoi barn rhanddeiliaid penodol am yr ymgynghoriad 'Cyflawni ein llwybr carbon isel hyd at 2030'.

Rydym yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i helpu i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf y byddwn yn ei gyhoeddi fis nesaf, a hefyd yn bwysicach na hynny, i lywio polisïau a chynlluniau'r dyfodol. Yn hwyrach eleni, byddwn yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad a fydd yn mynd i'r afael â phwyntiau a phryderon penodol a godir gan randdeiliaid. Yn y cyfamser, hoffwn fynd i'r afael â sawl pwynt yr ydych chi'n eu codi yn eich llythyr.

Rydych yn nodi bod rhai rhanddeiliaid yn feirniadol o'r diffyg manylder, costau ac asesiadau effaith yn yr ymgynghoriad. Yn ôl yr adborth gan randdeiliaid blaenorol, awgrymwyd eu bod am chwarae rhan yn y camau cynnar o ddatblygu polisi a chynllunio'r gwaith cyflenwi, cyn bod camau gweithredu wedi'u cadarnhau. Fel yr wyf wedi'i nodi mewn llythyrau blaenorol, nid oedd ymgynghoriad ffurfiol yn ofynnol, fodd bynnag, er mwyn bod yn agored a chynnwys cymaint o bobl â phosibl, penderfynom ymgysylltu ar ddechrau llwybr 2030 pan fo'r syniadau yn eu dyddiau cynnar.  Eglurodd yr ymgynghoriad ein hymrwymiad i ystyried costau ac asesiadau effaith pan fydd syniadau yn cael eu datblygu.

Nid wyf yn credu bod diffyg o ran cyngor gan arbenigwyr a rhanddeiliaid. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) yn sefydliad sy'n cael ei gydnabod ledled y byd ac wrth basio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, nododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru mai'r Pwyllgor hwn fyddai'r corff cynghori statudol. Er nad oes corff cyffredinol o randdeiliaid bellach, mae sectorau ar draws y Llywodraeth yn trafod â'u rhanddeiliaid mewn amrywiol ffurf. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynnig i greu gweithgor a arweinir gan ddiwydiant ac roedd wedi gofyn cwestiwn penodol ynghylch sut y gallwn annog mwy o gydweithio a thrafod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n wyliadwrus o ddyblygu Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid Hinsawdd eich Pwyllgor chi, ond rwy'n bwriadu darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio ar draws sectorau yn y dyfodol, yn dilyn adborth cadarnhaol yn yr ymgynghoriad a'r digwyddiadau datgarboneiddio ehangach a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r comisiwn sy'n ein cynghori ar ein targedau hirdymor yn ei gwneud yn ofynnol i'r CCC lunio ei gyngor yn unol â'n fframwaith statudol, sydd wrth gwrs yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn rhannu barn rhanddeiliaid am gyngor blaenorol gyda'r CCC. Un ffordd o wella'r sefyllfa fyddai sicrhau bod y Ddeddf yn ymddangos yn glir mewn unrhyw alwadau am dystiolaeth yn y dyfodol gan y CCC. Byddai hynny'n sicrhau cyfle da i randdeiliaid helpu'r CCC i ddatblygu ei arbenigedd yn hynny o beth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod y ffyrdd o weithio yn rhan annatod o'r Rhaglen Ddatgarboneiddio. Er enghraifft, er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad haf diwethaf, gwnaethom gynnal digwyddiadau, cynnwys pobl ifanc drwy gynnal ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc, cynnal gweminar gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a hyrwyddo'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn datblygu Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) y llynedd, gwnaethom fabwysiadu dull newydd o gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol drwy ystyried sut y gall cyflawni targedau Cymru a'r byd gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant drwy leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar yr arfarniad o gynaliadwyedd ochr yn ochr â'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel a fydd yn dangos sut yr ydym wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio a sicrhau bod y Cynllun yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Ar ben hynny, rydym yn gweithio i ddarganfod y cysylltiadau rhwng datgarboneiddio a meysydd polisi eraill. Rydym wedi datblygu dull o lunio polisïau i helpu swyddogion i ddeall bod eu gwaith yn cyffwrdd â meysydd eraill ac i wella sut mae eu polisïau yn cyfrannu at ddatgarboneiddio a'r nodau llesiant.

Cofion,



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

7 Chwefror 2019

Annwyl Lesley

Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 24 Ionawr, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i fynegi ein siom ynghylch amseru eich ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20.

Yn ein llythyr, dyddiedig 27 Tachwedd 2018, gofynnwyd i chi ymateb i'n hadroddiad naill ai erbyn 8 Ionawr 2019, neu cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb derfynol, p'un bynnag oedd gyntaf. Roedd hyn ar y sail y byddai gan Aelodau ddigon o amser i ystyried eich ymateb er mwyn llywio'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn well.

Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r broses graffu ar y gyllideb ddrafft, ac mai amser cyfyngedig sydd ar gael i bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar gynigion yn aml, ac i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiadau pwyllgorau. Y tro hwn, fodd bynnag, ni chafodd y Pwyllgor eich ymateb i'n hadroddiad tan brynhawn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, a oedd yn anfoddhaol iawn. Gofynnwn am

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

sicrwydd gennych na fydd hyn yn digwydd eto wrth ymateb i adroddiadau cyllideb drafft yn y dyfodol.

Rwy’n copïo’r llythyr hwn i sylw Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

cc Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

7 Chwefror 2019

Annwyl Ken

Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 24 Ionawr, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i fynegi ein siom ynghylch amseru eich ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20.

Yn ein llythyr, dyddiedig 30 Tachwedd 2018, gofynnwyd i chi ymateb i'n hadroddiad naill ai erbyn 17 Ionawr 2019, neu cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb derfynol, p'un bynnag oedd gyntaf. Roedd hyn ar y sail y byddai gan Aelodau ddigon o amser i ystyried eich ymateb er mwyn llywio'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn well.

Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r broses graffu ar y gyllideb ddrafft, ac mai amser cyfyngedig sydd ar gael i bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar gynigion yn aml, ac i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiadau pwyllgorau. Y tro hwn, fodd bynnag, ni chafodd y Pwyllgor eich ymateb i'n hadroddiad tan ar ôl y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, a oedd yn anfoddhaol iawn. Gofynnwn am sicrwydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

gennych na fydd hyn yn digwydd eto wrth ymateb i adroddiadau cyllideb drafft yn y dyfodol.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn i sylw Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

cc Llyr Gruffydd AM, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon